



Prifysgol Abertawe

Adolygiad Sefydliadol
gan yr Asiantaeth Sicrhau
Ansawdd Addysg Uwch

Mai 2014

Cynnwys

Yr adolygiad yma	1
Canfyddiadau allweddol	2
Beirniadaethau ASA am Brifysgol Abertawe	2
Nodweddion o arfer da	2
Argymhellion	2
Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith	3
Ynghylch Prifysgol Abertawe	3
Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Abertawe	5
1 Safonau academiaidd.....	5
Canlyniad	5
Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol.....	5
Defnydd o arholwyr allanol	6
Asesiad a safonau	7
Gosod a chynnal safonau rhaglenni	8
Meincnodau pwnc	9
2 Ansawdd cyfleoedd dysgu	10
Canlyniad	10
Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu	10
Adnoddau dysgu	10
Llais y myfyrwyr	12
Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau	13
Mynediad i'r Brifysgol.....	13
Cwynion ac apeliadau	14
Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd	15
Cefnogi myfyrwyr anabl	16
Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol	16
Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.....	16
Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol	17
Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu	18
Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle	19
Siarter y myfyrwyr.....	19
3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu.....	19
Crynodeb.....	19
4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu	21
Canlyniad	21
Rhestr termau	25

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Sefydliadol a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Abertawe. Cafwyd yr adolygiad rhwng 12 a 16 Mai 2014 ac fe'i weithredwyd gan dîm o bedwar adolygwr, fel a ganlyn:

- Dr Ian Duce
- Yr Athro Diane Meehan
- Dr Stephen Ryrie
- Mr James Freeman (adolygwr sy'n fyfyrwr)
- Mr Tony Platt (ysgrifennydd yr adolygiad).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Brifysgol Abertawe a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Yn yr adroddiad hwn, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - safonau academaidd trothwy¹
 - ansawdd y cyfleoedd dysgu
 - yr wybodaeth a ddarperir am gyfleoedd dysgu
 - gwelliant i gyfleoedd dysgu
- yn rhoi sylwadau ar bwnc y thema
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r sefydliad yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r [canfyddiadau allweddol](#) yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 5.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth². Mae gwybodaeth gefndir am Brifysgol Abertawe i'w chael ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae tudalen benodol ar y wefan yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Sefydliadol](#) o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill.

¹ I gael esboniad o'r termau gwelwch y [rhestr termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

² www.gaa.ac.uk/aboutus

³ www.gaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/ir-wales.aspx

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Abertawe

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Abertawe.

- Mae'r safonau academaidd yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau trothwy.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **derbyn cymeradwyaeth**.

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Abertawe.

- Mae'r Llwybr Gyrfa Academaidd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr (paragraff 2.1.2).
- Mae gwaith Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe i werthuso a datblygu polisiau ac arferion dysgu ac addysgu, ynghyd â'r rhaglen o ddatblygiad staff sydd wedi'i chynllunio'n dda ac y mae nifer dda'n ei mynychu, yn cyfrannu at ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr (paragraff 2.2.3).
- Mae'r staff llyfrgell sy'n arbenigwyr pwnc yn rhoi cefnogaeth dda i fyfyrwyr ac yn cysylltu'n effeithiol gyda'r colegau (paragraff 2.2.10).
- Defnyddir ystod eang o adborth gan fyfyrwyr, yn cynnwys yr AMC, i wella profiad y myfyrwyr (paragraff 2.3.5).
- Mae gan y Brifysgol agwedd gydlynol tuag at ddatblygu cyflogadwyedd myfyrwyr drwy ystod eang o fentrau (paragraff 2.7.4).
- Mae'r myfyrwyr israddedig yn bartneriaid mewn datblygu mentrau gwelliant (paragraff 4.6).
- Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe, Academi Cynhwysedd a Chefnogi Dysgwyr Abertawe, Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe, ac Academi Hywel Teifi'n cyfrannu at ddatblygu, gwerthuso a lledaenu prosiectau sy'n gwella profiad dysgu ehangach y myfyrwyr (paragraff 4.13).
- Mae'r Brifysgol yn cynnal ystod o fentrau symudedd a rhyngwladoli sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a gyrfaol y myfyrwyr (paragraff 4.14).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i Brifysgol Abertawe:

O ddechrau'r flwyddyn academaidd 2014-15:

- Dylai'r Brifysgol egluro'r modelau safoni sydd ar waith yn glir ar lefel y modiwl a'r rhaglen (paragraff 1.3.4).

O ddechrau'r flwyddyn academaidd 2015-16:

- Dylai'r Brifysgol weithredu system i'w galluogi i oruchwylio cyflawniad y myfyrwyr ar ei rhaglenni ymchwil ôl-raddedig (paragraff 2.4.4).

Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau** r camau gweithredu dilynol y mae Prifysgol Abertawe yn eu cymryd yn barod i sicrhau safonau academiaidd a/neu i wella'r ddarpariaeth addysgol y mae'n ei chynnig i'w myfyrwyr.

- Mae'r Brifysgol yn gweithredu i sicrhau bod canlyniadau dysgu'n cael eu mynegi mewn ffordd sy'n gyson â disgwyliadau'r FHEQ (paragraff 1.1.3).
- Mae'r Brifysgol yn cymryd camau i fonitro a gwella cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth ddiffiniol am raglenni (paragraff 3.11).

Gallwch weld esboniad pellach o'r canfyddiadau allweddol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr sydd ar gael ar wefan ASA, yn esbonio'r broses [Adolygiad Sefydliadol yng Nghymru](#).⁴

Ynghylch Prifysgol Abertawe

Mae'r Brifysgol yn brifysgol uchelgeisiol a arweinir gan ymchwil sy'n amcanu at fod ymysg y 30 sefydliad gorau yn y DU. Mae'n ceisio cynhyrchu gwaith ymchwil sy'n fyd-eang gydweithredol ac a gydnabyddir yn rhyngwladol, a defnyddio hwn i yrru tyfiant, ffyniant a chyfoethogi cymunedol. Nod y Brifysgol, drwy gynnig addysg dan arweiniad ymchwil ac wedi'i yrru gan arferion, yw cynhyrchu profiad eithriadol i'w 17,000 a mwy o fyfyrwyr, y mae 2,560 ohonynt yn rhyngwladol, wedi'i gefnogi gan 2,500 o staff cyfwerth ag amser llawn. Mae gan y sefydliad gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer tyfiant mewn meysydd academiaidd allweddol ac mae'n bwriadu ysgogi economi wybodaeth De-orllewin Cymru drwy bartneriaethau â byd diwydiant a'r llywodraeth. Nodwedd allweddol o hyn yw datblygiad campws 65 erw newydd sylweddol, y Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd (neu Gampws y Bae), sydd wedi'i amserlennu i agor yn 2015 a bydd hefyd yn caniatáu mwy o le ac adnewyddiad ar y prif Gampws ym Mharc Singleton.

Rheolir y Brifysgol drwy Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys yr Is-Ganghellor, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Cyllid, a Dirprwy Is-Ganghellorion y mae eu portffolios wedi eu mireinio i ddarparu cylchoedd gwaith penodol ar gyfer yr Ystadau; Rhyngwladoli a Materion Allanol; y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, y Gwyddorau Meddygol ac Iechyd; Ymchwil; Datblygu Strategol a Rheoli Newid; a Gwella Profiad a Safon Academiaidd Myfyrwyr. Mae'r portffolio diwethaf wedi rhoi ffocws ar draws y Brifysgol i'r thema partneriaeth â'r myfyrwyr, yn gyson ag egwyddorion Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (MYMC).

Yn 1920, derbyniodd y Brifysgol ei Siarter Frenhinol ac yn 2005 cafodd ei phwerau dyfarnu graddau ei hun. O 2011 ymlaen, mae pob myfyriwr wedi derbyn dyfarniadau Prifysgol Abertawe, yn hytrach na dyfarniadau Prifysgol Cymru. Cafwyd nifer o newidiadau trefniadol yn ddiweddar. Yn weithredol o 2011, mabwysiadodd y Brifysgol strwythur colegau newydd oedd yn adeiladu ar ad-drefniant cynharach i wella mas critigol ac effeithiolrwydd, cydlynad academiaidd a synergeddau addysgu ac ymchwil. Mae saith coleg erbyn hyn, a chan bob un strwythur llywodraethu cyffredin: Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau; Yr Ysgol Reolaeth; Coleg Peirianneg; Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd; Coleg y Gyfraith; Coleg Meddygaeth; Coleg Gwyddoniaeth. Sefydlwyd dangosyddion perfformiad allweddol i bob disgyblaeth academiaidd yn y colegau, wedi'u halinio gyda'r targedau, a systemau gwybodaeth ar gyfer monitro, sy'n ofynnol i alluogi'r Brifysgol i gyflawni ei huchelgais o fod yn y 30 uchaf.

Mae gan y seilwaith academiaidd diwygiedig Bwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol ac mae'r aelodaeth graidd yn cynnwys Cadeiryddion Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau. Mae ei is-bwyllgor ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol yn bwyllgor llawn erbyn hyn sy'n adrodd i'r Senedd ac mae gan Bwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau'r prif gyfrifoldeb, a ddatganolwyd

⁴ www.gaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/ir-wales.aspx

gan y Senedd, am safonau academiaidd a sicrhau ansawdd. Pwyllgorau academiaidd eraill y Senedd yw Ymchwil, Recriwtio a Derbyn a Defnyddio'r Gymraeg. Mae tri Bwrdd Academiaidd (Israddedig, Ôl-raddedig a Addysgir ac Ymchwil Ôl-raddedig), gyda Deon i bob un a Deoniaid Cyswllt o bob coleg.

Mae pedair academi'n cydlynu gwaith ar draws y Brifysgol, dan arweiniad staff uwch ac wedi eu cefnogi gan staff o'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol i godi ymwybyddiaeth o themâu arbennig Cynllun Strategol y Brifysgol. Sefydlwyd Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe yn 2009 i hybu dysgu, addysgu ac asesiad arloesol a chynhwysol ac i gefnogi datblygiad staff academiaidd. Sefydlwyd Academi Cyflogadwyedd Abertawe yn 2010 i wella cyflogadwyedd myfyrwyr a sgiliau entrepreneuraidd o fewn ac oddi allan i raglenni academiaidd. Yn 2013 dechreuodd Academi Cynhwysedd a Chefnogi Dysgwyr Abertawe wneud yr astudio yn y Brifysgol yn fwy hygyrch a helpu myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr i gyflawni eu potensial. Sefydlwyd Academi Hywel Teifi yn 2010 i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y disgyblaethau academiaidd.

Newidiodd y Brifysgol raglen ar y cyd gyda Phrifysgol Caerdydd am ei rhaglen Meddygaeth Mynediad i Raddedigion ei hun oedd yn rhoi lle i fyfyrwyr yn 2009, gyda'r garfan lawn gyntaf ar fin graddio gydag achrediad llawn gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2014. Yn 2008, aeth partneriaeth â Navitas UK Holdings Ltd ati i sefydlu Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe fel coleg mewnosodedig ar gampws y Brifysgol sy'n cynnig llwybrau i fyfyrwyr rhyngwladol na fyddai fel arall yn cwrdd â gofynion mynediad i'r rhaglenni israddedig a rhaglenni ôl-raddedig a addysgir a gynigir gan y Brifysgol. Mae'n cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Cynghori Academiaidd a'r Cyd-Fwrdd Partneriaeth Strategol ac mae ganddo ei strwythur sefydliadol mewnol ei hun sy'n gyson â hwnnw gan golegau eraill yn rhwydwaith Navitas UK. Mae'r cytundeb rhwng Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe a'r Brifysgol wedi ei hadolygu ddwy waith, ac mae'r Senedd wedi derbyn y canlyniadau.

Mae'r Brifysgol yn ystyried ei heriau uniongyrchol yn rhai tebyg i weddill y sector, gan gynnwys goblygiadau ffioedd, cwrdd â disgwyliadau'r myfyrwyr a pharodrwydd am weithrediad llawn y Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU diwygiedig, ond mae hefyd yn cynnwys cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Mae wedi cymryd yr arweiniad rhanbarthol o ran datblygu'r Bartneriaeth Sgiliau rhwng Prifysgolion a Cholegau ac mae wedi dilysu Graddau Sylfaen mewn cydweithrediad â cholegau lleol. I hyrwyddo symudedd rhyngwladol a galluogi graddedigion byd-eang, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei strwythur cwricwlwm a chredydau a'i darpariaeth i hwyluso cyfnodau o weithio neu astudio dramor ac mae'n parhau i greu cynghreiriau strategol gyda sefydliadau tramor gyda'r bwriad o ystyried dyfarniadau ar y cyd yn y dyfodol.

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ynglŷn â hybu'r iaith Gymraeg. Penododd Swyddog Iaith Gymraeg yn 2009 ac adolygodd ei Chynllun Iaith Gymraeg yn 2011. Mae gwefan Gymraeg newydd yn ei lle a nod y Brifysgol yw cynnal y cydraddoldeb rhwng ei darpariaeth gwybodaeth yn y ddwy iaith. Mae'n gweithio i adeiladu cyfleoedd Cymraeg i'w myfyrwyr ac mae'r nifer o fodiwlau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu. Yn ogystal â'i Academi ei hun sydd wedi'i ymroddi i iaith a diwylliant Cymru, mae'n gyfranogwr egniol yng ngweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Abertawe

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn fwy manwl.⁵

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau llawnach](#)⁶ ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.⁷

1 Safonau academiaidd

Canlyniad

Mae'r safonau academiaidd ym Mhrifysgol Abertawe yn **cyflawni disgwyliadau'r DU** mewn perthynas â safonau trothwy. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol

1.1 Mae rhaglenni astudio'r Brifysgol wedi'u halinio â'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* o ran eu pwysiad credydau a'u lefelau. Yn ei Chod Ymarfer ar gyfer Sicrhau Ansawdd (CYSA) mae'r Brifysgol yn nodi bod ei disgrifwyr dyfarniad yn cynnwys y rheiny oedd wedi'u hesbonio yn *Rhan A: Gosod a chynnal safonau academiaidd trothwy* yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd), er bod y tîm adolygu wedi clywed mai dim ond yn y sesiwn 2014-15 y byddai'r gwaith o fabwysiadu confensiynau lefel 4-6 astudiaeth israddedig a 7 ar gyfer darpariaeth ôl-raddedig a addysgir wedi ei weithredu'n llawn.

1.1.1 Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth o'r aliniad ar nifer o lefelau. Mae'r prosesau cymeradwyo modiwlau a rhaglenni'n gofyn bod cadarnhad o ddynodiadau lefel ac arweiniad yn cael ei ddarparu i staff yn llawlyfrau'r Brifysgol ar ddatblygu modiwlau newydd a rhaglenni a addysgir newydd. Mae adroddiadau o ddigwyddiadau dilysu rhaglenni a chofnodion pwyllgorau perthnasol, yn arbennig y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni, yn dangos bod disgrifwyr lefel a rhaglen yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses o gymeradwyo rhaglenni ac y gall y tîm adolygu gadarnhau o'u darllen bod ystyriaeth o'r fath yn gallu peri i argymhellion neu gyfeiriadau fynd yn ôl at y timau rhaglen sy'n gwneud y cynigion.

1.1.2 Yn 2011, datganolodd y Brifysgol y broses o gymeradwyo modiwlau newydd i Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau a gwnaeth adolygiad a ddaeth i'r casgliad cyffredinol bod y broses yn gweithio'n effeithiol. Dyranwyd y cyfrifoldeb am oruchwylio yn 2013 i'r Byrddau Academiaidd Israddedig ac Ôl-raddedig a wnaeth adolygiad o samplau o fodiwlau newydd. Yn yr adroddiadau oedd ar gael i'r tîm adolygu, daeth y Bwrdd Academiaidd Ôl-raddedig i nifer o gasgliadau, gan gynnwys y ffaith nad oedd canlyniadau dysgu ar lefel 7 yn aml iawn ac weithiau nad oedd hi'n bosibl eu mesur na'u cysylltu at asesiad. Mewn trafodaeth â'r tîm adolygu, eglurodd y Brifysgol statws drafft yr adroddiad a phwysleisiodd y ffaith fod y pryder a ganfuwyd yn ymwneud â geiriad y canlyniadau a allai gael eu gwella i ddangos aliniad â'r FHEQ yn well. Dywedodd y Brifysgol hefyd bod arholwyr allanol yn cadarnhau'n gyson bod safonau'r dyfarniadau'n briodol, am fod y tîm adolygu'n gallu gwirio, ac yn dangos, mai'r cam nesaf oedd adolygu'r holl fodiwlau a dilyn yr adroddiad gyda datblygiad staff.

⁵ Ni chyhoeddir y corff llawn o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad. Ond mae ar gael os gofynnwch amdano i'w ymchwilio. Cysylltwch â Grŵp Sicrhau Ansawdd ASA os gwelwch yn dda.

⁶ www.gaa.ac.uk/pages/glossary.aspx

⁷ Gwelwch nodyn 4.

1.1.3 Mae'r Brifysgol wedi mapio ei phrosesau yn erbyn Penodau perthnasol y Cod Ansawdd ac mae wedi dod i'r casgliad ei fod yn cyflawni Disgwyliad *Pennod A1: Y lefel genedlaethol*. O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae'r tîm adolygu'n cytuno â'r dadansoddiad yma, ac ar yr un pryd mae'n **cadarnhau**'r camau gweithredu y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i sicrhau bod canlyniadau dysgu'n cael eu mynegi mewn ffordd sy'n gyson â disgwyliadau'r FHEQ.

Defnydd o arholwyr allanol

1.2 Mae gan y Brifysgol reoliadau cynhwysfawr yn ymwneud ag arholi allanol rhaglenni a addysgir sydd wedi'u gosod yn y CYSA, ac mae wedi'u mapio yn erbyn penodau perthnasol y Cod Ansawdd, yn arbennig *Pennod B7: Arholi allanol*.

1.2.1 Mae Cofrestrfa Academaidd a Deon perthnasol y Brifysgol yn craffu ar yr enwebiadau ar gyfer arholwyr allanol newydd, ac mae'r trefniadau cilyddol neu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael eu cyfeirio at y Dirprwy Is-Ganghellor (Gwella Profiad a Safon Academaidd Myfyrwyr) cyn eu penodi gan y Byrddau Academaidd ar ran Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau'r Brifysgol. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth ddogfennol i ddangos y gallai'r broses hon beri ailgyfeirio neu wrthod enwebiadau a daeth i'r casgliad ei bod yn gadarn. Mae'r Gofrestrfa Academaidd yn cadw cronfa ddata o arholwyr allanol cyfredol ac mae'r amgylchiadau lle gallai eu contractau gael eu terfynu wedi'u diffinio'n eglur yn y CYSA. Mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant a sesiynau mentora, gan gynnwys gweithgaredd ymsefydlu, y gall staff y Brifysgol fynd iddo hefyd, a gwe-dudalennau perthnasol yn cynnwys Cod Ymarfer ar gyfer Arholi Allanol gydag arweiniad cynhwysfawr ar rolau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau. Mae arholwyr allanol yn mynegi boddhad gyda'r wybodaeth a ddarparwyd.

1.2.2 Mae'r Brifysgol yn defnyddio arholwyr allanol pwnc sy'n goruchwyllo safonau disgyblaeth ac, fel arfer, raglen wedi'i henwi. Mewn rhai meysydd mae'n penodi prif arholwyr allanol sy'n goruchwyllo tîm o arholwyr allanol. Mae'r ddwy rôl wedi'u diffinio'n glir yn y CYSA ac maent yn cynnwys y disgwyliadau ynghylch adolygu a chymeradwyo tasgau asesu, i sicrhau fod polisi'r Brifysgol ar safoni'n cael ei weithredu, a mynychu byrddau arholi er mwyn cadarnhau'r canlyniadau a rhoi sylwadau am y broses asesu ac ymddygiad y byrddau. Mae arholwyr allanol yn cyflwyno'u hadroddiadau'n electronig ar dempled safonol sy'n gwahodd sylwadau am briodoldeb safonau, cysondeb canlyniadau dysgu gyda meincnodau pwnc ac unrhyw ofynion gan gyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (gyrff PSRB), agweddu o arferion arloesol, materion sydd angen sylw brys, ac a yw eu hargymhellion blaenorol wedi derbyn ymateb. Gallai'r tîm adolygu ddarllen nifer fawr o adroddiadau oedd yn bositif ymhob achos bron a chadarnhawyd yn rheolaidd bod safonau academaidd yn cael eu gosod a'u cynnal yn briodol.

1.2.3 Mae craffu cadarn ar adroddiadau arholwyr allanol ar bob lefel yn y Brifysgol, yn gyntaf gan y Gofrestrfa Academaidd a'r Dirprwy Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am faterion sefydliadol, ac yna gan y colegau i'w hystyried gan Fyrddau Astudiaethau a Phwyllgorau Dysgu ac Addysgu yn y colegau. Gwerthusir yr adroddiadau ac ymatebion y colegau gan y Byrddau Academaidd sy'n rhoi cyngor i'r Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau. Mae'r Gofrestrfa Academaidd yn cynhyrchu Crynhoad Blynyddol a ystyrir gan y Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau ac sy'n cael ei ddsbarthu i bob arholwr allanol. Darllenodd y tîm adolygu nifer fawr o gofnodion byrddau a phwyllgorau ar lefel y colegau neu'r Brifysgol a ddangosodd ddull trwyadl a chydwybodol o ymateb i, ac o ymdrin ag unrhyw faterion a godwyd yn yr adroddiadau.

1.2.4 Ar amser yr adolygiad, sicrhawyd bod adroddiadau arholwyr allanol ar gael i gynrychiolwyr myfyrwyr drwy eu rolau mewn pwyllgorau ar lefel y colegau neu'r Brifysgol a chadarnhawyd hyn gan y cynrychiolwyr hynny a gyfarfu â'r tîm adolygu. Nid oedd y myfyrwyr nad oeddent yn gynrychiolwyr wedi gweld yr adroddiadau hyn fel arfer, er bod y tîm adolygu wedi clywed bod y Brifysgol yn bwriadu sicrhau bod adroddiadau ar gael yn rheolaidd i'r holl fyfyrwyr o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2014-15 ac wedi cychwyn y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod hyn yn digwydd.

1.2.5 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol gyfres o reoliadau a gweithdrefnau wedi'u datblygu'n dda i lywio arholi allanol a gwelsant amrediad eang o dystiolaeth i ddangos bod y gweithdrefnau hyn yn gweithio'n effeithiol ac yn gyson ar draws y sefydliad. Daeth i'r casgliad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd trwyadl o arholwyr allanol.

Asesiad a safonau

1.3 Mae gan y Brifysgol fesurau i sicrhau bod prosesau cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu asesiadau'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddangos canlyniadau dysgu eu dyfarniadau.

1.3.1 Mae rheoliadau asesu'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau a'r Senedd ac mae'r Byrddau Academaidd yn adolygu'r asesiadau bob blwyddyn gan ddefnyddio ystod o adborth, yn cynnwys adborth gan arholwyr allanol a myfyrwyr.

1.3.2 Mae'r Brifysgol yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i staff a myfyrwyr yn y CYSA a'r Polisi Adborth ac Asesu sy'n nodi'n glir egwyddorion asesiad amrywiol, cadarn a dibynadwy a pholisïau ynglŷn ag apeliadau, esgusodi, cyflwyniad hwyr, marcio, safoni a'r hawl i fael eu hasesu yn y Gymraeg. Nid yw myfyrwyr yn derbyn credyd am esgusodiad neu iawndal ac nid ydynt yn gymwys i gael dyfarniadau heblaw bod eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol. Mae'r polisi ar amgylchiadau esgusodol yn cael ei weithredu'n ganolog drwy'r Gofrestrfa Academaidd a'r Pwyllgor Achosion Myfyrwyr i sicrhau bod arferion yn gyson. Mae anghenion myfyrwyr sydd â gofynion addysgol penodol yn cael eu cefnogi drwy'r Swyddfa Anableddau, y Swyddfa Arholiadau, tiwtoriaid cyswllt anableddau a chydlynwyr modiwl.

1.3.3 Mae llawlyfrau'r colegau a'r rhaglenni a Siarter y Myfyrwyr hefyd yn rhoi gwybodaeth am asesiad. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo ac adolygu rhaglenni'n gofyn bod strategaethau asesu'n cael eu cynnwys yn nogfennaeth y rhaglenni. Gall y tîm adolygu gadarnhau bod strategaethau asesu'n cael eu hystyried yn ystod y prosesau hyn. Mae gofyn i'r colegau roi amserlenni asesu ac adborth i fyfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn ac mae meini prawf marcio wedi'u disgrifio mewn llawlyfrau. Mae'r myfyrwyr o'r farn bod yr arweiniad a ddarperir ar asesiadau'n ddefnyddiol ond nad yw meini prawf graddio'n cael eu deall yn llawn bob amser gan y myfyrwyr. Mae sgorau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) yn dangos bod y boddhad cyffredinol gyda'r prosesau asesu wedi gwella ers yr Adolygiad Sefydliadol diwethaf.

1.3.4 Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Sicrhau Ansawdd (CYSA) yn nodi arweiniad ar farcio a safoni. Caiff yr holl waith a aseswyd ei gyflwyno a'i farcio'n anhysbys, cyn belled ag y bo fformat yr asesiadau'n ganiatáu. Mae'r Brifysgol yn derbyn amrywiaeth mewn safoni, gan gydnabod amrywiol alwadau'r gwahanol ddisgyblaethau a mathau o asesiad. Disgwylir i'r colegau ddethol a gwneud yn eglur i'r myfyrwyr yr arferion mwyaf priodol i'w rhaglenni o bum model a amlinellir yn y CYSA. Gofynnir i arholwyr allanol roi sylwadau ar y broses safoni yn eu hadroddiadau. Er bod arweiniad y Brifysgol yn glir, gwelodd y tîm adolygu nifer o esiamplau mewn cofnodion gan Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau, Byrddau Astudiaethau a chyfarfodydd rhwng myfyrwyr a staff ac mewn nifer fechan o adroddiadau arholwyr allanol, o ddiffyg eglurder mewn perthynas â'r model safoni sy'n cael ei weithredu, ac weithiau roedd y llawlyfrau'n gwneud dim byd mwy na chyfeirio myfyrwyr yn ôl at arweiniad y CYSA. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** y dylai'r Brifysgol egluro'r modelau safoni sydd ar waith yn glir ar lefel y modiwl a'r rhaglen.

1.3.5 Mae cylch gwaith byrddau asesu wedi'i osod allan yn glir yn y CYSA ac mae swyddogion arholi yn y colegau hefyd yn derbyn llawlyfr a hyfforddiant ar gyfer eu rolau. Mae'n ddyletswydd gan Oruchwyliwr Asesu'r Brifysgol i hybu cywirdeb academaidd ac osgoi arferion annheg.

1.3.6 Mae polisi'r Brifysgol ar adborth am asesiad yn gofyn cwblhau o fewn tair wythnos, gyda'r colegau'n monitro'r glynu at y gofynion ar hyn o bryd ac, o 2014-15 ymlaen, bydd Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol yn gwneud hynny. Roedd yr adborth gan fyfyrwyr am

weithrediad y polisi hwn yn amrywiol; roedd rhai myfyrwyr yn teimlo bod y polisi yma'n cael ei gadw fel arfer, tra bo eraill yn rhoi esiamplau o sefyllfaoedd lle'r oedd adborth wedi cymryd rhagor o amser.

1.3.7 Mae hyfforddiant mewn asesu ar gael i'r holl staff drwy Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA) a'r Gwasanaethau Datblygu a Hyfforddiant. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth o arferion da ac arloesol yn cael eu lleadaenu drwy'r dulliau hyn. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithredu nifer o brosiectau i wella asesiad ac adborth ymhellach, gan gynnwys gweithredu offer ar-lein/electronig ar gyfer asesiad ac adborth yr oedd y myfyrwyr yn eu hystyried yn gyffredinol bositif. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod, drwy Brosiect Diwygio'r Cwricwlwm, yn adolygu strategaethau asesu ac yn gwerthuso'r baich asesu cyffredinol. Mae'r Brifysgol yn annog a chefnogi datblygiad asesiad dilys ac yn cynnwys yn fwy cadarn ddarpariaeth ac asesiad sgiliau generig o fewn y cwricwlwm (gwelwch baragraff 4.9).

Gosod a chynnal safonau rhaglenni

1.4 Mae gan y Brifysgol brosesau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i gynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu ei rhaglenni.

1.4.1 Mae disgrifiad clir o'r prosesau yn y CYSA, ac yn ategu hwnnw mae canllawiau defnyddiol ar ddatblygu modiwlau newydd a rhaglenni a phrosesau newydd yn ymwneud yn benodol â darpariaeth gydweithredol. Mae gwybodaeth benodol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn y prosesau hyn. Canfu'r tîm adolygu bod y fersiwn drafft yn effeithiol. Darperir hyfforddiant i staff a myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau cymeradwyo ac adolygu. Roedd y staff yn teimlo bod yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol.

1.4.2 Mae'r fframwaith pwyllgorau ar gyfer cynllunio, cymeradwyo ac adolygu modiwlau a rhaglenni'n gweithredu ar lefel y Brifysgol neu'r colegau. Ar lefel y colegau, mae Byrddau Astudiaethau'n gyfrifol am gychwyn a datblygu cynigion am raglenni newydd ac am adolygu modiwlau a rhaglenni bob blwyddyn, tra bo Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau'n craffu ar gynigion am raglenni newydd cyn iddynt gael eu hystyried ar y lefel nesaf ac maent wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gymeradwyo modiwlau newydd, am Adolygu Rhaglenni'n Flynyddol, am Adolygu Rhaglenni'n Gyfnodol, ac am fonitro cynlluniau gweithredu. Darllenodd y tîm adolygu nifer fawr o'r cofnodion hyn oedd yn dangos bod y pwyllgorau'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn unol â'u cylch gwaith. Ar lefel y Brifysgol, mae'r broses gymeradwyo'n cael ei gweithredu gan y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni sy'n argymhell dulliau dilysu ar sail risgiau: gan y pwyllgor ar gyfer risgiau isel, gan bwyllgor gwella ar gyfer risg canolig, a dilysiad llawn gan y panel ar gyfer yr holl ddarpariaeth newydd neu'r cynigion a ystyrir yn rhai risg uchel, yn cynnwys yr holl ddarpariaeth gydweithredol. Mae pob dull yn cynnwys cyfraniad gan aseswyr allanol neu arbenigwyr pwnc a, lle bo'n briodol, gan gyflogwyr. Mae'r Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni a'r Grŵp Datblygu Rhaglenni Strategol yn adrodd i'r Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau, sydd ag awdurdod dirprwyedig gan y Senedd i gymeradwyo rhaglenni newydd. Gallai'r tîm adolygu ddarllen nifer o ddogfennau sy'n ymwneud â'r broses gymeradwyo oedd yn dangos goruchwyliaeth effeithiol gan y Brifysgol a'r colegau ac ystyriaeth drwyadl o ddogfennaeth.

1.4.3 Mae adolygiadau blynyddol o fodiwlau a rhaglenni'n cael eu rheoli i gychwyn ar lefel y colegau drwy Fyrddau Astudiaethau a thrwy Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau sy'n pennu ac yn ymateb i faterion sy'n ymwneud â phob coleg. Ar lefel y Brifysgol, mae'r Byrddau Academaidd traws-sefydliadol hefyd yn adolygu'r Adroddiadau Monitro Blynyddol ac yn cynhyrchu adroddiad cryno blynyddol i'r Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau. Cwblhawyd yr enghreifftiau o adroddiadau a chofnodion pwyllgorau a welwyd gan y tîm adolygu'n ofalus a darparwyd cynlluniau gweithredu gyda nhw. Roedd cofnodion Pwyllgorau a Byrddau'n dangos ystyriaeth drwyadl o'r adroddiadau ar bob lefel a daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y broses yn gadarn ac yn effeithiol.

1.4.4 Mae'r holl raglenni'n cael eu hadolygu'n gyfnodol, pob pum mlynedd fel arfer ond gall y cylch gael ei addasu os oes newidiadau mawr, ymgysylltiadau eang cyrff PSRB, canlyniadau cadarnhaol yn yr Adolygiad Rhaglenni Blyneddol neu Ymgysylltiad Profiad Myfyrwyr blaenorol. Mae'r panel adolygu wedi'i gadeirio gan academydd uwch, ac mae'n cynnwys cyfraniad allanol a gan fyfyrwyr. Mae'r ddogfennaeth adolygu'n gynhwysfawr ac mae tystiolaeth i ddangos bod hyn yn cael ei ystyried yn ofalus. Gallai Adolygiad Rhaglenni Cyfnodol gael ei sbarduno gan Ymgysylltiad Profiad Myfyrwyr sydd wedi ei gychwyn yn arbennig pan welir fod ardal yn tanberfformio yn erbyn ystod o ddangosyddion, yn enwedig boddhad y myfyrwyr. Mae'r ymgysylltiadau wedi datblygu o'r cynllun Achos i Bryderu blaenorol, a'u nod yw helpu'r maes astudio i ymdrin â'r pryderon a ganfuwyd ac mae tair lefel bosibl, o gyfarfod i archwiliad mwy helaeth, neu i Adolygiad Rhaglenni Cyfnodol llawn. Llunnir y broses hefyd i bennu a lleadaenu arferion da.

1.4.5 Mae'r Brifysgol yn cadw cofnod o bob rhaglen sy'n cael ei hachredu a'i goruchwyllo gan gyrff PSRB. Mae'r Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau'n sicrhau bod y colegau'n ymateb yn briodol i'w hadroddiadau ac maent wedi ymdrin ag unrhyw faterion a godwyd ac wedi penderfynu a ydynt am godi unrhyw bryderon ehangach i'r Brifysgol.

1.4.6 Mae gweithdrefn glir ar gyfer gohirio a dileu rhaglenni wedi ei hamlinellu yn y CYSA a'i rheoli gan y Byrddau Academaidd. Ar amser yr ymweliad gan y tîm adolygu, roedd tystiolaeth i ddangos bod y portffolio o fodiwlau a rhaglenni'n mynd trwy newidiadau sylweddol mewn rhai meysydd o'r Brifysgol. Mewn rhai achosion, mae'r dystiolaeth a welwyd gan y tîm yn dangos rheolaeth effeithiol ar brosesau cau, yn cynnwys ymgynghoriad gyda staff a myfyrwyr, er bod newid eang mewn achosion eraill, er gwaethaf glynu at weithdrefnau'r Brifysgol, a bod y newid wedi denu sylwadau negyddol gan y ddwy ochr. Er gwaethaf y sylw yma, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod prosesau'r Brifysgol ar gyfer cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu ei darpariaeth yn cyflawni'r Disgwyliad a nodir yn y Cod Ansawdd.

Meincnodau pwnc

1.5 Mae meincnodau pwnc a chymhwyster yn ganolog mewn diffinio safonau academaidd a dyfarniadau yn y Brifysgol.

1.5.1 Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn cynnwys cyfeiriad yn ei brosesau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni i feincnodau pwnc, datganiadau cymhwyster a, lle bo'n briodol, ofynion cyrff PSRB a'r *Meincnod cymhwyster Gradd Sylfaen*. Mae'r Llawlyfr Datblygu a Chymeradwyo Rhaglenni Astudio a Addysgir Newydd yn rhestru'r datganiadau meincnod pwnc cyfredol ac hefyd mae cyfeiriad atynt yn y Templed ar gyfer Creu Rhaglenni ac maent wedi eu pwysleisio yn y broses adolygu rhaglenni cyfnodol. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn gofyn am ddilysu addasrwydd rhaglen hefyd gyda'r datganiad meincnod pwnc perthnasol.

1.5.2 Ar sail cofnodion Byrddau Astudiaethau'r colegau, Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu, y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni, ac ar sail adroddiadau nifer o ddigwyddiadau cymeradwyo rhaglenni, gall y tîm adolygu gadarnhau bod datganiadau meincnod pwnc a gofynion cyrff PSRB, lle maent yn berthnasol, yn cael eu hystyried yn gyson. Er bod arweiniad y Brifysgol yr un mor agored am eu hystyriaeth yn y broses adolygu rhaglenni gyfnodol, nid oedd adroddiadau'r digwyddiadau hyn bob amser yn cyfleu'r drafodaeth yma'n glir.

2 Ansawdd cyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu ym Mhrifysgol Abertawe yn **cyflawni disgwyliadau'r DU**. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu

2.1 Mae'r Brifysgol yn sicrhau bod y staff sy'n cyfrannu at addysgu a chefnogi dysgu'n meddu ar gymwysterau addas ac yn cael eu cefnogi a'u cydnabod gan ystod o fesurau.

2.1.1 Mae gofyn i staff sydd newydd gael eu penodi gyflawni rhaglen sy'n dilyn at Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch. Clywodd y tîm adolygu gan staff oedd wedi gwneud y rhaglen ei bod hi'n werthfawr o ran cynllunio a darparu modiwlau ac wrth ddarparu cysylltiadau gydag athrawon eraill. Disgwylir i staff academiaidd gymryd rhan mewn system o arsylwi gan gymheiriaid ac maent yn ystyried y system hon yn ffordd werthfawr o annog myfyrio.

2.1.2 Mae agwedd glodfawr y Brifysgol tuag at gydnabod a datblygu staff yn ymdrechu i gydnabod addysgu medrus a hybu dysgu'r myfyrwyr. Mae Llwybrau Gyrfa Academiaidd, wedi eu halinio â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU, yn gwahaniaethu rhwng llwybrau cynnydd gyrfaol sydd wedi'u seilio ar addysgu a rheolaeth oddi wrth y rheiny sydd wedi'u seilio ar addysgu ac ymchwil, gan ddiffinio'r meini prawf craidd a gwell ar gyfer pob gradd. Mae llwybr cynnydd at lefel athrawol ar gael i staff ac mae priif ffocws hwn ar addysgu ac ysgoloriaeth a rheoli a chefnogi myfyrwyr. Mae arholi allanol yn faen prawf ar gyfer dyrchafiad hefyd. Mae'r staff yn deall yr agwedd yma'n glir ac maent yn gwerthfawrogi'r dull yma o ddyrchafu ar sail tystiolaeth a'r hyblygrwydd i ailgyfeirio llwybr eu gyrfa dros amser. Mae proses Adolygu Datblygiad Proffesiynol, a gyflwynwyd yn 2011, yn cynnwys cyfarfod blynyddol rhwng staff a rheolwyr llinell i drafod perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys mesuriadau o foddhad y myfyrwyr ar sail sgorau'r AMC a gwerthusiadau o fodiwlau. Cesglir adborth ar-lein gan staff i werthuso'r broses. Mae'r cyfraniad a wnaed gan y Llwybr Gyrfa Academiaidd at gynnal a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr yn **arfer da**.

Adnoddau dysgu

2.2 Mae'r Brifysgol yn darparu adnoddau priodol i alluogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau dysgu eu rhaglenni. Mae'r adnoddau hyn yn amrywio o staff cymorth ac addysgu effeithiol i adnoddau dysgu ac adeiladau addysgu.

2.2.1 Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo i gynnig addysgu a arweinir gan ymchwil ac addysgu a yrrir gan arferion ac mae wedi mabwysiadu strategaeth i sefydlu'r egwyddor hon mewn ffordd systematig ar draws y sefydliad o 2014 ymlaen, gan adeiladu ar brofiad a rhwydweithiau Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA) (gwelwch baragraff 4.7.2). Disgwylir i'r prosiect yma esgor ar gysylltiad eglur rhwng y perthnasoedd hynny a geir rhwng ymchwil ac ysgoloriaeth a'r cwricwlwm ac y bydd y rhain yn dod yn rhan annatod o amrediad o ddogfennau monitro'r cwricwlwm.

2.2.2 Cefnogir datblygiad proffesiynol y staff addysgu gan raglen o gyrsiau datblygiad staff a ddarperir gan Wasanaethau Datblygu a Hyfforddiant y Brifysgol. Cynigir dros 100 o gyrsiau bob blwyddyn, yn amrywio o agweddau o ddysgu ac addysgu, sgiliau ymchwil a rheoli adnoddau i iechyd a diogelwch. Yn ystod 2013-14 hyd amser yr ymweliad adolygu, roedd 853 o unigolion wedi mynychu o leiaf un cwrs.

2.2.3 Mae rôl ADAA mewn gwerthuso a datblygu polisïau ac arferion dysgu ac addysgu, ynghyd â'r rhaglen o ddatblygiad staff sydd wedi'i chynllunio'n dda ac y mae nifer dda'n ei mynychu, yn **arfer da**.

2.2.4 Disgrifiwyd y strategaeth ar gyfer penodi staff addysgu i'r tîm adolygu fel system o'r gwaelod i fyny. Pennir y gofynion o fewn disgyblaethau pwnc a chânt eu hystyried gan y colegau o fewn eu cyllidebau blynyddol, dan oruchwyliaeth uwch reolwyr y Brifysgol o fewn strategaeth adnoddau gyffredinol y sefydliad.

2.2.5 Dyrennir tiwtor personol i'r myfyrwyr sydd wedi ei hyfforddi ar gyfer y rôl yn unol â pholisi'r Brifysgol a Siarter y Myfyrwyr. Roedd y staff a gyfarfu â'r tîm adolygu'n ystyried tiwtora'n nodwedd bwysig o gefnogaeth y myfyrwyr, ac felly hefyd y myfyrwyr oedd yn gallu rhoi esiamplau o'r gefnogaeth a roddir. Mae cefnogaeth dechnegol a gweinyddol ar gael i fyfyrwyr o fewn y colegau. Clywodd y tîm fod y ffocws ar gefnogaeth weinyddol yn arbennig wedi newid ers ad-drefnu'r unedau academaidd, a bod y myfyrwyr yn ystyried yr ansawdd yn amrywiol.

2.2.6 Roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu'n llai na bodlon gyda rhai agweddau o'r adeiladau addysgu, a chafwyd sylwadau am gyflwr hen ffasiwn rhai o'r ystafelloedd a'r ffaith na all yr amserlen ymdrin yn effeithlon â niferoedd rhy uchel. Mewn rhai unedau academaidd, nid oedd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn teimlo eu bod yn derbyn digon o le penodol iddyn nhw na digon o gyfleusterau TG. Fodd bynnag, roedd y staff a'r myfyrwyr yn gwybod am y rhaglen adnewyddu barhaus ac yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau i'r adran ystadau, ac roeddent yn ystyried yr adran yma'n dda iawn am ymateb. Roeddent hefyd yn teimlo bod pobl yn gwrandao arnynt wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio cyllid ar gyfer adnoddau dysgu.

2.2.7 Mae'r adnodd dysgu ffisegol i'w gael yn Strategaeth Ystadau'r Brifysgol. Un datblygiad trawsffurfio sydd ar waith yw adeiladu Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd 65 erw (a elwir hefyd yn Gampws y Bae) a fydd ar gael i fyfyrwyr ym mis Medi 2015. Dywedwyd wrth y tîm adolygu y bydd y manau dysgu newydd ac ail-leoli unedau academaidd i'r campws yn rhyddhau lle ac yn galluogi rhagor o fuddsoddiad mewn adnoddau ar y prif Gampws ym Mharc Singleton.

2.2.8 Mae'r wybodaeth weinyddol, gyfrifiadurol, llyfrgell a chyflogadwyedd yn cael eu dwyn ynghyd yn y Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth sy'n gosod eu targedau strategol mewn dogfen gynhwysfawr. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'r her fawr sy'n gysylltiedig ag ateb y galwadau hynod newidiol am ddarpariaeth TG. Mae wedi buddsoddi mewn cyfrifiaduron bwrdd gwaith a meddalwedd i alluogi myfyrwyr i ganfod y peiriannau sydd ar gael, ynghyd â dyfeisiau cludadwy i'w benthyg, ond mae rhai myfyrwyr yn dal i deimlo bod y ddarpariaeth yn annigonol. Dywedwyd wrth y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi ymateb i'r defnydd a wneir o ddyfeisiau symudol drwy ddarparu rhwydwaith diwifr treiddiol sydd wedi ei ymestyn erbyn hyn i fannau cysylltiedig megis yr ysbyty, gyda chynlluniau llawn dychymyg i'w ymestyn i fannau cyhoeddus eraill megis llyfrgelloedd ac amgueddfeydd.

2.2.9 Mae'r Grŵp Arloesi mewn Dysgu'n cynnwys cynrychiolwyr o ADAA a Phwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau ac mae wedi esblygu o'r grŵp e-ddysgu i ddarparu fforwm ar gyfer datblygu agweddau arloesol a chynhwysol tuag at ddysgu ac addysgu sydd wedi eu llunio i wella profiad y myfyrwyr (gwelwch baragraffau 2.5.4, 2.8.3 a 4.10). Mae gan bob modiwl safle ar rith-amgylchedd dysgu'r Brifysgol ac mae'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer y cynnwys. Mae ADAA yn darparu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth ar gyfer addysgu sy'n defnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu, gan gynnwys arweiniad ar arferion addysgu cynhwysol. Er bod gan eu modiwlau i gyd bresenoldeb electronig, dywedodd y myfyrwyr bod cyfoeth y cynnwys yn amrywiol ac nad yw deunyddiau ar gael 24 awr o flaen llaw bob amser. Mae'r Brifysgol wedi rhoi cynnig ar, ac wedi gwerthuso, pecynnau safonol ar

gyfer cyflwyno, asesu a rhoi adborth ar waith y myfyrwyr oll ar-lein ac mae'n bwriadu gwneud y rhain yn orfodol o hydref 2014 ymlaen. Roedd y staff a'r myfyrwyr yn gyffredinol frwdfrydig am y datblygiad yma ond mynegwyd rhai pryderon ynglŷn ag ymarferoldeb ei weithredu ar draws y Brifysgol.

2.2.10 Mae'r Brifysgol wedi gwella'n amlwg yn y ddwy flynedd ddiwethaf o ran y sgorau am adnoddau dysgu yn yr AMC, a oedd yn is na chyfartaledd y sector ynghynt. Clywodd y tîm adolygu fod y myfyrwyr yn gyffredinol yn fodlon iawn gyda'r ddarpariaeth llyfrgell a chyfeiriwyd yn benodol at y gefnogaeth ragorol i'w dysgu gan y tîm arbenigwyr pwnc sydd yno, gan gynnwys y gefnogaeth i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig oddi ar y campws. Mae strwythurau sydd ar waith yn darparu cyswllt agos rhwng tîm y llyfrgell a'r colegau, gan gynnwys presenoldeb ar Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau. Mae'r gefnogaeth gref a roddir gan staff llyfrgell sy'n arbenigwyr pwnc a'u cysylltiad agos â'r colegau'n **arfer da**.

Llais y myfyrwyr

2.3 Mae cynrychiolaeth y myfyrwyr wedi'i ddatblygu'n dda ym Mhrifysgol Abertawe ac mae ymgysylltiad myfyrwyr yn cyfrannu'n gryf at ethos myfyrwyr fel partneriaid. Mae agwedd y Brifysgol yn ddeinamig a myfyriol.

2.3.1 Mae swyddogion llawn amser Undeb y Myfyrwyr, a etholwyd gan bleidlais ar-lein, yn darparu cynrychiolaeth y myfyrwyr ar bwyllgorau uwch y Brifysgol, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Myfyrwyr ac Academi Cynhwysedd a Chefnogi Dysgwyr Abertawe (SAILS). Clywodd y tîm adolygu bod perthynas waith agos rhwng uwch reolwyr y Brifysgol a'r swyddogion llawn amser sy'n cyfrannu'n sylweddol at awyrgylch o bartneriaeth, yn unol â menter 'Cyfeiriadau'r Dyfodol - Myfyrwyr fel Partneriaid' y sector addysg uwch yng Nghymru.

2.3.2 Etholir cynrychiolwyr myfyrwyr ar lefel y pwnc mewn pleidlais ar-lein wedi'i rheoli gan Undeb y Myfyrwyr a gallent gael eu henwebu gan eu cymheiriaid i fod yn gynrychiolwyr colegau sy'n eistedd ar Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau ac yn darparu cynrychiolwyr i'r Byrddau Academaidd, y mae'r Brifysgol yn darparu bwrsariaeth fechan iddynt. Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhoi arweiniad defnyddiol sy'n pennu materion posibl i'w hystyried ar bob lefel, ac mae digwyddiadau hyfforddi ar gael, gyda chyfraniad gan y Gofrestrfa Academaidd, ynghyd â chynhadledd y daw nifer dda iddi. Mae data demograffig manwl wedi'i dangos drwy bleidleisio ar-lein sy'n caniatáu monitro amrywiaeth. Nododd y tîm adolygu bod y data'n dangos cyfranogaeth sy'n dirywio'n gyffredinol dros dair blynedd gweithredu'r system.

2.3.3 Mae cynrychiolwyr pwnc yn mynychu Byrddau Astudiaethau a fforymau staff-myfyrwyr sy'n adrodd i'r Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau, er bod y tîm adolygu wedi nodi nad oes gan yr holl fyrddau gynrychiolwyr myfyrwyr eto. Gallai'r tîm adolygu corff mawr o dystiolaeth ar gyrff staff-myfyrwyr oedd yn dangos eu bod yn arenâu effeithiol i alluogi i bryderon gael eu lleisio, gyda chamau gweithredu'n cael eu dwyn ymlaen a'u bwydo yn ôl i fyfyrwyr, er bod rhai myfyrwyr wedi cyfeirio at esiamplau lle nad oedd colegau wedi ymateb yn effeithiol.

2.3.4 Mae'r broses ar gyfer casglu adborth gan fyfyrwyr wedi'i disgrifio yn y Cod Ymarfer ar gyfer Sicrhau Ansawdd. Mae myfyrwyr yn cwblhau holiadur ar-lein ar lefel y modiwl, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a weithredir yn ganolog, ac mae adroddiad yn cael ei fwydo'n ôl i dîm y modiwl. Mae hwn yn cynnwys gwerthusiad ansoddol a meintiol o drefniant ac addysgu'r modiwl, a chaiff y canlyniadau eu bwydo i Adolygiadau Datblygiad Personol y staff. Rhoddodd y myfyrwyr sylwadau positif am y broses ond nododd y tîm, er bod cyfraddau cyfranogaeth fel petaent yn codi, maent yn aros yn is na 30 y cant mewn rhai meysydd astudio. Ar lefel y rhaglen, gallai myfyrwyr gymryd rhan mewn adolygiadau cyfnodol neu ddigwyddiadau dilysu. Mae'r Brifysgol yn cynnal arolwg blynyddol o brofiad myfyrwyr israddedig blynyddoedd 1 a 2, yn ogystal â chyfranogi yn yr AMC. Ceir adborth am ddarpariaeth ôl-raddedig o'r Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig. Y tu allan i'r strwythurau a'r prosesau ffurfiol, defnyddir grwpiau ffocws a digwyddiadau ymgynghori i sicrhau adborth wedi'i dargedu.

2.3.5 Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi adolygu effeithiolrwydd eu systemau ac yn defnyddio'r porth 'My UNI' i annog cyfranogaeth mewn arolygon, yn cynnwys yr AMC. Cynyddodd y gyfranogaeth yn 2013 a 2014. Defnyddir canlyniadau o arolygon, yn enwedig yr AMC, ar gyfer Adroddiad a Chynllun Gweithredu Profiad Myfyrwyr sefydliadol. Mae pob coleg a phob gwasanaeth yn cynhyrchu ymatebion lleol a ystyrir mewn cyd-gyfarfod o'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu a'r Pwyllgor Materion Myfyrwyr ac a adroddir i'r corff myfyrwyr yn uniongyrchol drwy'r porth 'My UNI'. Mae canlyniadau'r AMC yn bwydo i mewn i Adroddiad Dangosyddion Ansawdd Academaidd sy'n meincodi'r Brifysgol pwnc wrth bwnc yn erbyn lefelau'r sefydliad a'r sector. Gall y dadansoddiad sbarduno Ymgysylltiad Profiad Myfyrwyr rhwng cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau, yn cynnwys myfyrwyr, a thîm y pwnc. Roedd y tîm o'r farn bod hwn yn agwedd ystyrion sydd wedi'i gynnwys yn dda tuag at ddefnyddio data a gafwyd gan fyfyrwyr. Mae'r defnydd wedi'i gydlynu a wneir o ystod eang o adborth gan fyfyrwyr, yn cynnwys yr AMC, i wella profiad y myfyrwyr yn **arfer da**.

Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau

2.4 Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu ac yn ystyried amrywiaeth eang o wybodaeth rheoli er mwyn cefnogi ansawdd a gwella safonau yn y mwyafrif o'i darpariaeth.

2.4.1 Mae cyfres ddata fanwl am ei darpariaeth israddedig yn cael ei pharatoi'n flynyddol, ar sail dangosyddion sy'n cynnwys yr AMC, ystadegau mynediad a chynnydd myfyrwyr a chanlyniadau'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch, wedi'u torri i lawr yn ôl oedran, rhyw ac ethnigrwydd i lefelau'r colegau a'r rhaglenni. Defnyddir hon yn effeithiol ar gyfer monitro cyfnodol a blynyddol ac mae'n hysbysu dadansoddiad a chynlluniau gweithredu.

2.4.2 Mae Pwyllgor Cynghori Academaidd Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe/Prifysgol Abertawe'n ystyried gwybodaeth rheoli mewn perthynas â darpariaeth yng Ngholeg Rhyngwladol Cymru Abertawe. Mae Adroddiad Asesu Blynyddol gan Goleg Rhyngwladol Cymru Abertawe ynghyd â dadansoddiadau gan golegau o gyflawniad y myfyrwyr yn symud o Goleg Rhyngwladol Cymru Abertawe, yn cael eu defnyddio gan y Pwyllgor Cynghori Academaidd i fonitro cyflawniad y myfyrwyr a gafodd le i gychwyn yng Ngholeg Rhyngwladol Cymru Abertawe. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod y Pwyllgor Cynghori Academaidd yn ystyried y data hwn yn ofalus ac yn ei ddefnyddio i gynllunio camau gweithredu ar gyfer gwella dysgu'r myfyrwyr. Mae gwybodaeth rheoli'n ymwneud â'r maint gweddol fychan o ddarpariaeth gydweithredol arall yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol. Nododd y tîm adolygu fod pob partner cydweithredol wedi cyflwyno adroddiad monitro blynyddol gyda data am gynnydd a chyflawniad myfyrwyr. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol yn ystyried yr adroddiadau'n ofalus.

2.4.3 Dadansoddodd y Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth gynnydd y myfyrwyr mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd â nodweddion gwarchoddedig ar gyfer 2012-13, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw batrymau.

2.4.4 Mae'r Brifysgol wedi cymharu ei rhaglenni ymchwil ôl-raddedig gyda phrifysgolion eraill a, gan gydnabod bod angen gwella ei system o gofnodi cynnydd myfyrwyr ymchwil unigol, mae wedi ei hymrwymo ei hun i sefydlu system ar-lein bwrpasol i fod yn weithredol o fis Mai 2014. Fodd bynnag, mae'r tîm adolygu'n nodi nad oes tystiolaeth o gasglu a chronni'n systematig ddata yn ymwneud â mynediad, cynnydd a chwblhau rhaglenni ymchwil ôl-raddedig neu adroddiadau systematig gan y Bwrdd Dilyniant Ymchwil Ôl-raddedig i'w bwyllgor rhieniol, y Bwrdd Academaidd Ymchwil Ôl-raddedig. O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn gweithredu system i'w galluogi i oruchwylio cyflawniad y myfyrwyr ar ei rhaglenni ymchwil ôl-raddedig.

Mynediad i'r Brifysgol

2.5 Mae'r polisïau a ddefnyddir i dderbyn myfyrwyr i'r Brifysgol yn glir, teg, eglur ac yn cael eu gweithredu'n gyson.

2.5.1 Mae'r Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yn goruchwylio'r polisi a'r arferion sy'n gysylltiedig â derbyn myfyrwyr i raglenni israddedig ac ôl-raddedig. Darperir llawlyfrau a chyfleoedd hyfforddi defnyddiol i ddewiswyr, gan gynnwys y Gynhadledd Recriwtio a Derbyn a gyflwynwyd yn ddiweddar ac y daeth nifer dda iddi. Mae'r llawlyfrau'n esbonio rôl y Swyddfa Derbyn ac yn rhoi gwybodaeth megis y gofynion iaith Saesneg ar gyfer rhaglenni'r Brifysgol a Choleg Rhyngwladol Cymru Abertawe. Mae llawlyfr ar wahân ar gyfer clirio a chadarnhad sy'n nodi'r niferoedd targed a'r gweithdrefnau derbyn.

2.5.2 Mae'r Swyddfa Derbyn yn derbyn ceisiadau ac yn sicrhau bod modd cwrdd â gofynion y Brifysgol a gofynion y pwnc cyn anfon y cais i'r maes academiaidd perthnasol ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniadau. Mae'r broses hon yn sicrhau bod o leiaf un aelod o staff canolog ac un o staff y colegau'n gweld yr holl geisiadau, gan sicrhau cysondeb. Yn yr un modd, mae tîm materion ôl-raddedig y Swyddfa Derbyn yn cysylltu â'r tiwtoriaid derbyn myfyrwyr ôl-raddedig yn y colegau i sicrhau bod ymgeiswyr am raglenni ôl-raddedig a addysgir a rhaglenni ymchwil ôl-raddedig yn cael sylw mewn da bryd. Mae hefyd yn gyfrifol am anfon penderfyniadau am leoedd ac am unrhyw ysgoloriaethau neu wobrau partneriaid diwydiannol sydd efallai ar gael. Mae hawl i apelio gan ymgeiswyr sy'n credu bod gweithdrefnau derbyn y Brifysgol wedi eu gweithredu'n anghywir neu'n anghyson, a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr) sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

2.5.3 Mae'r wybodaeth i ymgeiswyr yn estynedig ac atyniadol ac mae gwe-dudalennau hawdd eu llywio ar gael sy'n rhyng-gysylltu â'i gilydd ac sydd wedi eu llunio'n dda, ac mae prospectws ar gael ar-lein ac mewn print. Fel sy'n ofynnol, mae gwybodaeth ar gael am unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phob rhaglen, yn ychwanegol at y data Cyfresi Gwybodaeth Allweddol arferol. Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm adolygu mai'r wefan oedd eu prif ffynhonnell gwybodaeth cyn iddynt wneud cais. Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn adolygu'r wybodaeth a'r broses recriwtio bob blwyddyn ac mae tystiolaeth i ddangos bod newidiadau sy'n codi o'r strategaeth recriwtio a derbyn ddiwygiedig wedi cyfrannu at gynyddiadau mawr yn y nifer sy'n derbyn cynigion Prifysgol.

2.5.4 Mae gan y Brifysgol bolisi ehangu mynediad ar gyfer 2011-14 a sefydlodd Academi Cynhwysedd a Chefnogi Dysgwyr Abertawe (SAILS) gyda'r genhadaeth o ehangu mynediad i bobl o gefndiroedd amrywiol a gwella cadwraeth (gwelwch baragraff 4.11). Mae'r Academi wedi ffurfio polisi ar ddefnyddio ffactorau cyd-destunol wrth dderbyn myfyrwyr, i'w ddefnyddio wrth gadarnhau o 2014 ac yn llawn o 2015 ymlaen. Y Brifysgol hefyd yw'r partner arweiniol yn y rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach yn Ne-orllewin Cymru, sy'n cynnig tariff Safon Uwch gostyngedig i ymgeiswyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n mynd ar raglen haf dair wythnos ym mlwyddyn 12.

Cwynion ac apelïadau

2.6 Mae gan y Brifysgol drefn gwyno ac apelio glir ac mae llawer o dystiolaeth i ddangos bod hon yn deg, yn hygyrch, yn brydlon ac yn gadarn.

2.6.1 Mae canllawiau cynhwysfawr ar gael ar y wefan, er nad oedd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm arolygu yn glir ynglŷn â sut y byddent yn cwyno neu'n apelio ond roeddent yn gyffredinol hyderus y gallent gael gafael ar arweiniad yn y colegau neu gan Undeb y Myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n fodlon, ar ôl adolygu llawlyfrau a deunyddiau eraill a chlywed gan staff academiaidd a staff cymorth, bod y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i gyfeirio myfyrwyr at y trefnau.

2.6.2 Mae'r seiliau ar gyfer cwyno ac apelio wedi'u disgrifio'n glir, fel y mae'r trefnau y dylai myfyrwyr eu dilyn, gan gynnwys myfyrwyr mewn sefydliadau partner a ddylai ddefnyddio trefnau'r partner yn y lle cyntaf. Mae'r holl ddogfennaeth angenrheidiol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Brifysgol yn ceisio cynyddu'r nifer o achosion a ddatryswyd yn anffurfiol ar y gyntaf o'r broses ddau gam ac mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod nifer o fesurau, yn cynnwys galluogi myfyrwyr i wirio cywirdeb y marciau ac adolygu'r polisi ar amgylchiadau

esgusodol, wedi gostwng nifer yr apeliadau sy'n mynd ymlaen i wrandawriad ffurfiol a nifer y cwynion sy'n codi o'r coleg i lwyfan y Brifysgol. Lle mae'r myfyrwyr yn anfodlon gyda chanlyniad y gŵyn neu'r apêl gallent ofyn am adolygiad terfynol ar lefel y Brifysgol a darperir canllawiau clir ar sut y gallent gyfeirio eu cwyn, os yw'n parhau heb ei datrys, i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

2.6.3 Disgrifir cylch gwaith a gweithrediad y Bwrdd Apeliadau Academaidd yn glir yn y canllawiau. Mae'r tîm adolygu'n nodi nad yw'r panel fel arfer yn cwrdd â'r apelydd wyneb yn wyneb, er bod darpariaeth am hyn dan amgylchiadau eithriadol ac, er bod y trefniadau'n gyson gyda *Phennod B9: Apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr* y Cod Ansawdd, mae'r tîm adolygu'n holi a ydynt mor eglur ag y gallent fod. Ond, gall y tîm gadarnhau bod y gefnogaeth i fyfyrwyr sy'n cwyno neu'n apelio ar gael yng Nghanolfan Cyngor Undeb y Myfyrwyr, y mae'r myfyrwyr yn ei chael yn werthfawr, ac mae'n cydnabod y potensial i ddatrys a chymodi'r problemau'n gynnar ac yn effeithiol ym mhresenoldeb cyfryngwr hyfforddedig o blith staff y Ganolfan Cyngor.

2.6.4 Adolygir cwynion ac apeliadau bob blwyddyn ac ystyrir crynodeb myfyriol a gwerthusol gan y Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau. Mae'n ymddangos bod yr adroddiad hwn wedi cael ei ddefnyddio i wella'r prosesau apelio a chwyno, ond mae'n llai clir sut y mae wedi ei ddefnyddio mewn cyd-destun ehangach o wella.

Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd

2.7 Mae'r agwedd tuag at addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn y Brifysgol nid yn unig wedi'i sicrhau'n ddigonol o ran ei hansawdd, ond mae hefyd yn agwedd arwyddocaol o'i chenhadaeth sy'n newid y diwylliant.

2.7.1 Mae gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd rôl benodol sy'n berthnasol i fyfyrwyr, adrannau academaidd a chyflogwyr. Mae ganddo we-dudalennau llawn gwybodaeth, rhaglen ddiddorol o ddigwyddiadau, gan gynnwys 'Fy wythnos cyflogadwyedd', ac mae'n cynnig cefnogaeth un-i-un i fyfyrwyr. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda busnesau mawr a bach i ganolig a gyda'r rhaglen 'GO Wales'. Mae'n cydlynu profiad gwaith drwy'r Wythnos o Waith a Rhwydwaith Interniaeth â Thâl Abertawe. Roedd y myfyrwyr yn llawn canmoliaeth am y gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth a bu graddedigion yn disgrifio'r cysylltiad uniongyrchol rhwng mentrau cyflogadwyedd a gwaith llawn amser. Mae Gwobr Gyflogadwyedd Abertawe'n rhaglen wirfoddol a reolir gan y Gwasanaeth lle mae myfyrwyr yn gweithio i ddatblygu sgiliau personol a sgiliau cyflogadwyedd a gofnodir yn rhan o'u proffil cyrhaeddiad yn yr Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch. Mae'r Brifysgol yn annog y colegau i'w ymgorffori yn eu modiwlau a asesir.

2.7.2 Rheolir mentrau gyrfaoedd a chyflogadwyedd gan y Brifysgol ar nifer o lefelau. Y prif ddangosydd perfformiad yw'r data o'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch sy'n rhan o ddangosyddion perfformiad allweddol y Brifysgol. Mae'r data'n anogol yn barod ac mae'r targed strategol yn nodi y bydd 75 y cant o raddedigion sydd mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl graddio mewn swydd o lefel raddedig.

2.7.3 Rhwng y gwasanaeth canolog ar gyfer addysg gyrfaoedd, y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, a'r unedau academaidd yn y colegau, mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe'n chwarae rôl allweddol mewn cydlynu gweithgareddau. Un o nodweddion amlwg strategaeth y Brifysgol yw mewnblannu cyflogadwyedd yn y cwricwlwm. Mae angen rhaglenni newydd a rhai sy'n bodoli'n barod mewn prosesau dilysu neu adolygu i bennu themâu cyflogadwyedd sydd wedi'u halinio â nodweddion graddedigion. Mae Hyrwyddwyr Academi Cyflogadwyedd Abertawe ym Mhwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau'n sicrhau agwedd draws-sefydliadol (gwelwch baragraff 4.10).

2.7.4 Canfu'r tîm adolygu bod gan gyflogadwyedd ym Mhrifysgol Abertawe nifer o gryfderau arwyddocaol a daeth i'r casgliad bod agwedd gydlynol y Brifysgol tuag at ddatblygu cyflogadwyedd myfyrwyr drwy ystod o fentrau yn **arfer da**.

Cefnogi myfyrwyr anabl

2.8 Mae'r Brifysgol yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu yn cael eu rheoli ar bob lefel mewn ffordd sy'n galluogi i hawliau myfyrwyr anabl gael eu cyflawni.

2.8.1 Y Swyddfa Anableddau yw ffocws canolog gweithrediad y polisi anableddau, gan ddarparu gwe-dudalennau gyda chyfres o ganllawiau wedi'u halinio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac arferion da mewn perthynas ag anawsterau dysgu penodol. Anogir myfyrwyr i ddatgan anabledd ar gais neu unrhyw bryd wedyn, ac yna daw'r Ganolfan Lles/Anableddau'n bwynt cysylltu cyntaf iddynt. Gellir trefnu ymweliadau cyn-mynediad i'r rheiny sydd ag anghenion cymhleth. Gall y ganolfan asesu yn y Swyddfa Anableddau bennu'r angen am wahanol fathau o gymorth a helpu gyda cheisiadau am gyllid. Lle mae caniatâd ganddi, bydd yn cynghori'r coleg am anghenion y myfyriwr.

2.8.2 Y Tiwtor Cyswllt Anableddau yw'r cyswllt allweddol yn y colegau a fydd yn rhannu'r wybodaeth angenrheidiol gyda thiworiaid personol a staff addysgu ac a fydd yn sicrhau bod yr addasiadau sydd eu hangen i'r amgylchedd dysgu yn eu lle, gan gynnwys amser ychwanegol mewn arholiadau. Mae'r rhith-amgylchedd dysgu wedi cael archwiliad hygyrchedd ac mae'n rhaid gosod y deunyddiau 24 awr cyn y wers erbyn hyn. Mae hyfforddiant ar gael i farcwyr, llyfrgellwyr arbenigol a staff eraill, ac mae gan we-dudalennau ADAA ganllawiau gwerthfawr ar arferion addysgu cynhwysol. Hefyd mae gan SAILS rôl strategol bwysig mewn perthynas â chynhwysedd a chefnogaeth (gwelwch baragraff 4.11).

2.8.3 Gwelodd y tîm adolygu lawer o dystiolaeth o agwedd fyfyrionol gan y Brifysgol tuag at reoli'r amgylchedd dysgu er lles myfyrwyr anabl.

Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol

2.9 Mae'r Brifysgol yn darparu cefnogaeth dda ar gyfer ansawdd y cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr rhyngwladol.

2.9.1 Mae nifer y myfyrwyr rhyngwladol yn y Brifysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y degawd diwethaf ac mae'r Brifysgol eisiau cynyddu eu niferoedd i 17 y cant o gyfanswm y myfyrwyr erbyn 2017.

2.9.2 Mae'r Swyddfa Datblygiad Rhyngwladol yn rheoli trefniadau i fyfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr gwadd a myfyrwyr cyfnewid. Mae'n cynnal gwe-dudalennau cynhwysfawr, gan gynnwys y Prosbectws Rhyngwladol, ac mae'n ymdrin ag ymholiadau gan ddarparu fyfyrwyr. Mae'r Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr Rhyngwladol o fewn y Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynhyrchu'r Llawlyfr Myfyrwyr Rhyngwladol cynhwysfawr ac mae ganddo dîm o gynghorwyr sy'n gyfrifol am gyngor a chefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae hefyd yn cydlynu wythnos groeso ac ymsefydlu. Mae'r cyngor a'r gefnogaeth yn hygyrch ac o safon uchel.

2.9.3 Mae'r Gwasanaeth Hyfforddiant Iaith Saesneg yn darparu unrhyw gefnogaeth ieithyddol angenrheidiol ac mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau cyn cyrraedd ac yn ystod y gwyliau. Mae cefnogaeth ychwanegol ar gael i fyfyrwyr sydd ar raglenni yn barod drwy'r Rhaglen Llwyddiant Academaidd a chlywodd y tîm fod tiwtoriaid personol wedi cyfeirio myfyrwyr tuag at yr adnodd hwn yn llwyddiannus.

Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

2.10 Mae gan y Brifysgol drefniadau cefnogaeth ac arweiniad priodol i alluogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i gwblhau eu rhaglenni ac i sicrhau fod staff yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau.

2.10.1 Mae gwybodaeth ar gael i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar wefan benodedig i'w hysbysu am weithdrefnau a gofynion derbyn myfyrwyr, y fframwaith rheoliadol, hawliadau a disgwyliadau, a phrosesau i fonitro cynnydd. Clywodd y tîm adolygu bod myfyrwyr wedi cael yr wybodaeth yma'n glir, yn fanwl ac yn ddefnyddiol a bod trefniadau derbyn ac ymsefydlu'n cael eu gweithredu'n ofalus.

2.10.2 Nod y Brifysgol yw cynnig amgylchedd ymchwil digon cefnogol i hwyluso gwaith ymchwil rhagorol. Siaradodd y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig am hyn mewn ffordd gadarnhaol, gan gyfeirio at berthynas dda gyda thimau goruchwyllo, rhaglenni seminar, y cyfle i gyfranogi yng ngwaith y grwpiau ymchwil, cymorth ariannol i gynadleddau a datblygiad proffesiynol, a'r gofal a chymorth personol a gynigir gan Wasanaeth Lles y Brifysgol. Mae'r tîm adolygu'n nodi bod y Brifysgol yn rhoi pwysigrwydd arbennig i waith cydweithredol gyda phartneriaid diwydiannol ond ni chafodd y tîm hyd i dystiolaeth o unrhyw ddulliau systematig sydd gan y Brifysgol o'i sicrhau ei hun bod yr amgylchedd ymchwil a gynigir gan y partneriaid sy'n gyfrifol am gyd-oruchwyliaeth yn addas.

2.10.3 Darperir datblygiad sgiliau ymchwil a sgiliau eraill i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy raglen helaeth a chadarnhaodd y myfyrwyr bod disgwyl iddynt sefydlu cynllun hyfforddi unigol gyda'u goruchwylwyr. Gwneir y gwaith o fonitro cynnydd myfyrwyr unigol drwy system o adrodd blynyddol wedi'i seilio ar dempledi i fyfyrwyr a goruchwylwyr. Roedd y myfyrwyr yn gyfarwydd â disgwyliadau i fonitro eu cynnydd drwy adrodd canolog ac yn gyfarwydd hefyd â chofnodi canlyniadau eu cyfarfodydd goruchwyllo.

2.10.4 Mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn gwneud rhywfaint o addysgu neu asesu ar raglenni israddedig ac mae canllawiau sefydliadol clir ar ddefnyddio myfyrwyr mewn rolau addysgu a rolau eraill perthnasol, gan gynnwys y gofyniad i gymryd cwrs hyfforddi o flaen llaw. Er bod y myfyrwyr wedi cadarnhau bod hyn yn digwydd, barn y tîm adolygu oedd nad yw'r broses o fentora gwaith addysgu'r myfyrwyr yn gyson ei natur.

2.10.5 Mae'r Brifysgol yn sicrhau adborth am farn myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy'r Arolwg o Brofiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig dwyflynyddol y mae pob coleg yn ei ddefnyddio i lunio cynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro gan y Bwrdd Academaidd Ymchwil Ôl-raddedig. Er nad oedd y myfyrwyr a siaradodd â'r tîm adolygu wedi dangos fawr ymwybyddiaeth o'r Fforwm Ymgysylltu â Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig, sy'n is-bwyllgor i'r Bwrdd Academaidd Ymchwil Ôl-raddedig, canfu'r tîm adolygu dystiolaeth bod y sylwadau a fynegwyd yn y Fforwm wedi arwain at rai gwelliannau mewn adnoddau. Fodd bynnag, am ei bod hi'n ymddangos nad yw'r Bwrdd Academaidd Ymchwil Ôl-raddedig wedi derbyn adroddiadau gan ei is-bwyllgor arall, y Bwrdd Dilyniant Ymchwil Ôl-raddedig, ni allai'r tîm ganfod dystiolaeth i ddangos fod y Bwrdd mewn sefyllfa i gyflawni ei ymrwymiad i ystyried dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â rhaglenni ymchwil ôl-raddedig (gwelwch yr argymhelliad ym mharagraff 2.4.4).

Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol

2.11 Mae trefniadau cydweithredol y Brifysgol wedi'u rheoli'n effeithiol i alluogi myfyrwyr i gyflawni eu dyfarniadau. Mae'r Brifysgol yn rheoli ansawdd y dysgu mewn partneriaid cydweithredol yn unol â'r un egwyddorion a pholisïau sydd ar waith yn y ddarpariaeth ar y campws.

2.11.1 Mae cwmpas y ddarpariaeth gydweithredol wedi bod yn weddol fach ond, yn rhan o'i hagenda, mae'r Brifysgol yn datblygu nifer fechan o bartneriaid strategol y tu allan i'r DU ac yn fwy lleol na hynny mae wedi cysylltu â cholegau addysg bellach er mwyn darparu rhaglenni Gradd Sylfaen. Mae gan y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol y cyfrifoldeb o sicrhau bod trefniadau cydweithredol yn cael eu trafod, eu cytuno a'u rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ac mae cofrestr gynhwysfawr o drefniadau cydweithredol ar waith. Mae'r Brifysgol wedi mapio ei gweithdrefnau yn erbyn *Pennod B10: Rheoli darpariaeth addysg uwch gydag eraill* y Cod Ansawdd ac mae'n cydnabod y *Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop*.

2.11.2 Rheolir y broses o ddedol a chymeradwyo partneriaid newydd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflwyno a Chymeradwyo Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill, sy'n cynnwys gofynion am wneud asesiadau risg a diwydrwydd dyladwy gan ddefnyddio templedi safonol. Ar ôl darllen dogfennau sy'n ymwneud â rhaglen gradd meistr Erasmus Mundus a phrifysgol partner newydd yn Ewrop, mae'r tîm adolygu'n nodi tystiolaeth o brosesau cymeradwyo a weithredwyd yn ofalus, rheolaeth ddilynol drwy sefydlu Grŵp Gweithredu, a monitro rheolaidd gan y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol. Gwelodd y tîm hefyd dystiolaeth o weithrediad effeithiol Cyd-fyrddau Astudiaethau, gan gynnwys ystyriaeth o ddatblygiad cwricwlwm, adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr yn y sefydliadau partner.

2.11.3 Mae Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe'n darparu llwybrau rhaglen ar y campws i fyfyrwyr rhyngwladol i brif ffrydio rhaglenni'r Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Cynghori Academaidd yn gyfrifol am reoli'r bartneriaeth. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth o'i gofnodion ei fod yn gwneud y rôl yma'n ddiwyd, er enghraifft wrth adolygu'r cytundeb cydnabyddiaeth a chanlyniadau'r Adolygiadau Rhaglenni Cyfnodol yng Ngholeg Rhyngwladol Cymru Abertawe. Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu a ddarperir yng Ngholeg Rhyngwladol Cymru Abertawe'n atebol i'r un gweithdrefnau ar gyfer monitro blynyddol â rhaglenni'r Brifysgol ei hun ond mae hawl ganddo i weithredu ei weithdrefnau ei hun ar gyfer adolygu rhaglenni'n gyfnodol. Ar ôl darllen adolygiad o'r fath, mae'r tîm adolygu'n nodi ei fod wedi'i weithredu'n drwyadl ond bod cyfansoddiad y panel adolygu'n sylweddol wahanol oddi wrth adolygiadau a wneir o fewn y Brifysgol. Mae canlyniadau'r Adolygiadau Rhaglenni Cyfnodol yn cael eu hystyried gan golegau priodol y Brifysgol, mewn perthynas â materion y cwricwlwm, gyda throsolwg gan y Pwyllgor Cynghori Academaidd. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y trefniant yma'n gadarn.

2.11.4 Mae tiwtoriaid cyswllt yn cefnogi partneriaethau gyda cholegau addysg bellach a Choleg Rhyngwladol Cymru Abertawe ac mae ganddynt rolau penodol mewn perthynas â gwella ansawdd, datblygu staff, darparu adnoddau, a chyfathrebu ac adrodd, sydd wedi'u hamlinellu yn y Llawlyfr Tiwtoriaid Cyswllt. Siaradodd y tiwtoriaid cyswllt yn wybodus am eu rôl a chadarnhau bod staff mewn colegau partner yn cyfranogi mewn cyfleoedd datblygiad staff yn y Brifysgol. Maent yn gwneud cyfraniad effeithiol i sicrhau bod y profiadau dysgu i'r rheiny sy'n astudio yn y sefydliadau partner yn gymaradwy â rhai'r myfyrwyr ar y safle.

2.11.5 Mae'r Brifysgol yn penodi asiantiaid i helpu gyda recriwtio'n rhyngwladol. Clywodd y tîm adolygu bod y Swyddfa Datblygiad Rhyngwladol yn monitro a chefnogi gwaith yr asiantiaid mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys llawlyfr, porth gwefan, taflen newyddion a chynhadledd. Mae'r wybodaeth am y Brifysgol a'i rhaglenni sy'n ymddangos ar wefannau'r asiantiaid yn cael ei monitro gan y Swyddfa Datblygiad Rhyngwladol i sicrhau ei bod yn gywir. Mae'r Pennaeth Marchnata'n llofnodi i gadarnhau'r deunyddiau hyrwyddo ar gyfer darpariaeth gydweithredol, gyda chyngor am gynnwys y cwricwlwm gan diwtoriaid cyswllt. Mae tystysgrifau ar gyfer rhaglenni a gwblhawyd mewn cydweithrediad â sefydliadau partner yn cyfeirio'n briodol at y ddwy ochr. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y gweithdrefnau hyn yn gadarn.

Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu

2.12 Un rhaglen yn unig sydd gan y Brifysgol a ddarperir drwy ddysgu hyblyg a dosranedig, sef gradd BA yn y Dyniaethau, ac mae hon wedi'i bwriadu i ddysgwyr hŷn sy'n astudio'n rhan amser. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth o reolaeth ofalus ac ystyrlon o ansawdd y rhaglen, gan gynnwys trefniadau ar gyfer derbyn a chofrestru, datblygu sgiliau astudio, cynnydd myfyrwyr unigol a'r trefniadau ar gyfer cefnogi darpariaeth modiwlau ac argaeledd adnoddau yng nghanolfannau'r rhaglen, ynghyd ag ystyriaeth o ganlyniadau'r AMC.

2.12.1 Roedd myfyrwyr yn siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth y mae'r Brifysgol yn ei darparu ar gyfer eu hastudiaethau a chadarnhawyd eu bod yn cael yr un cyfleoedd i werthuso eu dysgu â myfyrwyr ar y campws.

Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle

2.13 Mae'r Brifysgol yn cynnig amrediad eang o leoliadau gwaith i fyfyrwyr, yn enwedig Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd. Mae Graddau Sylfaen a gynigir mewn sefydliadau partner hefyd yn cynnwys elfen dysgu seiliedig ar waith. Gwelodd a chlywodd y tîm adolygu dystiolaeth bod y rhain yn cael eu rheoli'n effeithiol.

2.13.1 Mae hawliau a chyfrifoldebau'r myfyrwyr, y cyflogwyr a'r Brifysgol, a'r perthynas rhyngddynt, wedi'u disgrifio mewn cytundeb tair rhan y mae'n rhaid i bob ochr danysgrifio iddynt. Mae'r Llawlyfr Mentora Dysgu Seiliedig ar Waith yn darparu arweiniad defnyddiol i fentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora.

2.13.2 Mae ansawdd y dysgu seiliedig ar waith wedi'i aswirio ym mhrosesau safonol y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth yn nogfennaeth gymeradwyo rhaglen Gradd Sylfaen o ystyriaeth ofalus o'r elfen seiliedig ar waith a sylwadau gan arholwyr allanol, ar amrywiol lefelau, am elfennau seiliedig ar waith y rhaglenni.

Siarter y myfyrwyr

2.14 Mae Siarter y Myfyrwyr yn nodi disgwyliadau cyfartal y Brifysgol a'i myfyrwyr. Mae'n gyfrifoldeb ar y cyd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ac mae'r olaf o'r ddau'n gweld hyn fel esiampl o'i berthynas cadarnhaol â'r Brifysgol.

2.14.1 Mae Siarter y Myfyrwyr ar gael ar ffurf electronig ac ar bapur yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn ymwybodol iawn o'r Siarter ac aethent ati i ddweud wrth y tîm eu bod yn ei ystyried yn fynegiant boddhaol o gyfrifoldebau'r myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr fel ei gilydd yn cydnabod bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r Siarter ac maent yn ystyried ffyrdd newydd o'i wneud yn hygyrch, gan gynnwys defnyddio ap ffôn clyfar a chodau QR.

3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu

Crynodeb

Mae'r wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni disgwyliadau'r DU**. Mae'r gynulleidfa darged o'r farn bod yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig yn addas i'r pwrpas ac yn hygyrch ac mae'n bosib ymddiried ynddi. Mae rhesymau'r tîm am y casgliad yma i'w gweld isod.

3.1 Mae gwefan y Brifysgol wedi'i llunio'n dda ac mae'n darparu gwybodaeth wedi'i theilwra i ystod o randdeiliaid, yn cynnwys myfyrwyr, rhieni a chynghorwyr, ac i'r cyhoedd ehangach, gan gynnwys cyflogwyr posibl, cleientiaid, partneriaid a staff. Mae strategaethau a pholisïau allweddol ar gael ar-lein, yn cynnwys y Cynllun Strategol a'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol Blyneddol, ynghyd â phrosiectysau. Drwy gynllun Canllawiau ar Gyhoeddi, mae gwybodaeth fanylach ar gael am strwythurau, swyddogion, gwerthoedd a chodau ymarfer. Mae'r ystod lawn o weithdrefnau a rheoliadau ar gael ar-lein a gellir eu cyrraedd yn gyfleus drwy Ganllaw Academaidd. Mae'r gofrestr o Bartneriaid Cydweithredol a Siarter y Myfyrwyr yn esiamplau o ddogfennau allweddol eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

3.2 I ddarparu fyfyrwyr mae gwybodaeth glir a manwl am brosesau derbyn sy'n cyfeirio at amodau cynigion ac ystyriaethau arbennig, gan gynnwys apeliadau. Mae gofynion cyrff PSRB wedi eu hesbonio'n glir ar we-dudalennau cyrsiau, gydag esboniad da o brosesau dethol. Mae gwe-dudalennau rhaglenni'n amlinellu'n fras beth yw strwythur y rhaglen, y gofynion mynediad a chynnwys y modiwlau, oll mewn ffordd sydd wedi'i deilwra'n briodol i'r gynulleidfa darged, er bod amrywiaeth ym manylder yr wybodaeth am fodiwlau. Darperir lefel dda o

wybodaeth am gymorth bugeiliol a gwasanaethau i fyfyrwyr, ynghyd â thudalennau'n rhoi gwybodaeth ariannol am ffioedd a chostau byw. Yn ddefnyddiol iawn, mae'r 'Canllaw i Rien i Addysg Uwch ym Mhrifysgol Abertawe' yn diffinio jargon arbenigol ac mae'n cynnwys cwestiynau cyffredin.

3.3 Mae'r Adran Farchnata'n llofnodi'r holl wybodaeth sydd wedi'i thargedu at ddarpar fyfyrwyr. Mae'r prospectysau'n cael eu diweddarau'n flynyddol a chesglir manylion y newidiadau lleol gan yr Adran Farchnata cyn i'r proflenni gael eu rhannu gyda'r Swyddfa Derbyn, Gwasanaethau Proffesiynol a'r colegau, sydd oll â rheolwyr marchnata sy'n gyfrifol am lofnodi i gymeradwyo'r wybodaeth. Mae gwybodaeth partneriaid yn cael ei gwirio i sicrhau ei bod yn gywir ar bob cam yn y broses o ddilysu ac adolygu cyfnodol. Mae system ar waith sydd wedi'i strwythuro'n dda ar gyfer monitro deunyddiau recriwtio dramor ac mae gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr ar wefannau partneriaid wedi cael ei archwilio'n ddiweddar (gwelwch baragraff 2.11.4).

3.4 Mae data Cyfresi Gwybodaeth Allweddol yn hygyrch drwy wefan Unistats neu drwy ddyfais ar dudalennau rhaglenni ac mae'n cydymffurfio gyda chylchlythyrau CCAUC perthnasol, er enghraifft drwy nodi'n glir beth yw costau llety ac unrhyw gostau astudio ychwanegol. Mae'r data'n cael ei reoli'n briodol, gyda gwybodaeth wedi'i dynnu o ddisgrifwyr modiwl wedi'u storio y gall y colegau edrych arnynt wedyn a'u diweddarau. Yn dilyn gwirio, llofnodir y gyfres ddata gyfan gan staff uwch y sefydliad ac mae systemau cadarn ar gyfer archwilio.

3.5 Anfonir gwybodaeth ar ôl y cynnig i ymgeiswyr llwyddiannus am ddiwrnodau agored ac mae ebyst rheolaidd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr. Mae Grŵp Cynllunio'r Cyrraedd yn cydlynu'r wybodaeth, ac o 2014 bydd gan y colegau unigol dudalennau glanio am ymsefydliad i gasglu gwybodaeth gofrestru.

3.6 I fyfyrwyr cyfredol, mae'r wefan yn darparu gwybodaeth am reoliadau, gwasanaethau academaidd a chymorth ac astudio dramor. Cefnogir y rhain gan wybodaeth sy'n benodol berthnasol i'r colegau a'r rhaglenni a chadarnhaodd y myfyrwyr bod yr wybodaeth yma'n ddefnyddiol. Mae porth mewnrwyd yn rhoi dolenni i'r staff at wybodaeth a systemau rheoli, ac mae'n rhoi dolenni at wasanaethau i fyfyrwyr, ond mae'r mwyafrif o'r wybodaeth ar lefel y rhaglen yn cael ei darparu drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae rhywfaint o wybodaeth yn cael ei rhoi i mewn yn awtomatig, ond rhaid i ganllawiau asesu, meini prawf marcio, papurau sampl a deunyddiau cyn darlithoedd gael eu hychwanegu gan staff, a gyfaddefodd bod cydymffurfio â gofynion newydd y Brifysgol yn waith sydd ddim ond ar y gweill weithiau. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod y rhith-amgylchedd dysgu wedi gwella dros amser. Maent yn ystyried llawlyfrau'n ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth. Mae rhai adroddiadau arholwyr allanol ar gael drwy'r rhith-amgylchedd dysgu ond, gan fwyaf, mae'n rhaid eu cyrraedd drwy gynrychiolwyr myfyrwyr. Byddent yn cael eu rhannu'n fwy eang gyda'r corff myfyrwyr yn y dyfodol ac mae camau ar waith yn barod i alluogi hyn.

3.7 I fyfyrwyr ar raglenni cydweithredol, mae llawlyfrau ychwanegol y mae tiwtoriaid cyswllt yn gwirio eu cywirdeb. I fyfyrwyr rhyngwladol, mae'r gwe-dudalennau ar gael mewn nifer o ieithoedd, gyda gwybodaeth glir ar ofynion mynediad penodol i wledydd arbennig a gofynion am yr iaith Saesneg.

3.8 Mae gan y Brifysgol weithdrefn wedi'i sefydlu'n dda ar gyfer cyflwyno trawsgrifiadau ar ôl cwblhau dyfarniadau, yn cynnwys adolygiad o gywirdeb ar nifer o lefelau. Mae'r Brifysgol yn flaengar wrth weithredu Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch y sector cyfan, sy'n cofnodi gweithgareddau academaidd ac allgwricwlaidd sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol, megis gwirfoddoli a chyflawni gwobrau cyflogadwyedd. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn gweithio ar Wobr Undeb y Myfyrwyr. Mae gwybodaeth dda ar gael ar-lein i fyfyrwyr ynglŷn â'r hyn y gellir ei gofnodi yn yr Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch.

3.9 Mae'r Brifysgol yn defnyddio Cod Ymarfer Gwybodaeth ac yn defnyddio templedi'n eang i sicrhau bod colegau a rhaglenni'n llenwi gwybodaeth am raglenni, y mae llawer ohono'n

cael ei gynhyrchu'n ganolog, ochr yn ochr â pholisïau canolog cyson. Mae cywirdeb yr wybodaeth yn cael ei fonitro drwy brosesau ar bob lefel a'i archwilio'n effeithiol. Archwiliodd y tîm adolygu sut y sicrheir cywirdeb yr wybodaeth mewn nifer o gategoriâu o wybodaeth am raglenni.

3.10 Mae'r Brifysgol yn cadw Catalog Modiwlau electronig sydd wedi cael ei adolygu a'i wirio'n ddirybudd ers 2012 er mwyn gostwng gwallau (gwelwch baragraff 1.1.2). Er gwaethaf y ffaith fod angen parhaus am fireinio, creda'r tîm adolygu bod maint priodol o wybodaeth ar lefel y modiwl ar gael i fyfyrwyr. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu anghysonderau mewn gwybodaeth am safoni oedd fel petai'n mynd yn erbyn ymrwymiad cryf y Brifysgol i roi cyhoeddusrwydd i fethodolegau safoni i fyfyrwyr (gwelwch baragraff 1.3.4).

3.11 Mae Cod Ymarfer ar gyfer Sicrhau Ansawdd y Brifysgol yn gofyn bod manylebau rhaglenni'n cael eu defnyddio fel y ffynhonnell wybodaeth ddiffiniol am raglenni ac mae'n ymrwymo i sicrhau bod y fersiwn a gedwir yn ei chronfa ddata electronig ar gael ar-lein i randdeiliaid. Fodd bynnag, datgelodd y trafodaethau gyda staff a'r dystiolaeth ddogfennol nad yw'n egluro ddigon ai'r fersiwn terfynol sy'n ymddangos mewn Llawlyfrau Rhaglen neu a yw'r rhain yn cynnwys cynrychiolaeth gweddol gyfartal o'r wybodaeth ddiffiniol ar ffurf sy'n addas i fyfyrwyr. Yn ymarferol, canfu'r tîm adolygu lawer o amrywiad, yn arbennig yn ymwneud â dyfynnu datganiadau meincnod pwnc a gosod rhaglenni yn y FHEQ, mewn gwybodaeth hanesyddol o ddogfennaeth adolygu rhaglenni ac hefyd yn y Catalog Cyrisiau cyfredol ar y fewnwyd. Mae'r tîm adolygu'n cydnabod bod y Brifysgol, yn ystod 2012-13, wedi pennu rheolaeth ganolog a chywirdeb gwybodaeth am raglenni fel gwendid ac mae wedi bod yn cymryd camau i wella hyn ac i alinio gyda'i Chod Ymarfer ei hun. Fodd bynnag, mae rhai o'r camau gweithredu yma'n ddiweddar iawn neu, yn wir, yn mynd rhagddynt o hyd. Felly, mae'r tîm yn **cadarnhau** r camau a gymerwyd i fonitro a gwella cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth ddiffiniol am raglenni.

3.12 Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol yn dangos ei hymrwymiad i gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, wedi'i hybu gan Academi Hywel Teifi, ond mae pob coleg a gwasanaeth proffesiynol yn gyfrifol am weithrediad lleol. Mae grŵp monitro'n adrodd i'r Pwyllgor Defnyddio'r Gymraeg ac ymlaen i'r Senedd. Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'r diweddaraf o'r rhain yn awgrymu bod y Brifysgol yn cyflawni ei goblygiadau gan fwyaf neu bod ganddi gynlluniau gweithredol i wneud hynny.

4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu ym Mhrifysgol Abertawe yn **derbyn cymeradwyaeth**. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

4.1 Mae Cynllun Strategol a Strategaeth Dysgu'r Brifysgol yn dangos dull strategol lefel uchel o wella cyfleoedd dysgu'r myfyrwyr sy'n bwrpasol ac yn barhaus drwy nifer o themâu: dysgu ac addysgu a arweinir gan waith ymchwil ac a yrrir gan arferion; mwy o symudedd ymysg myfyrwyr; arloesi yn y cwricwlwm; cymorth i ddysgwyr; cadwraeth a llwyddiant; cyflogadwyedd, entrepreneuriaeth a datblygiad proffesiynol. Canfu'r tîm adolygu bod y staff a gyfarfu â hwy, er nad oeddent wedi sôn am welliant mewn termau strategol o'r fath, yn cyfeirio'n glir at esiamplau penodol o fentrau sefydliadol ac yn dangos ymwybyddiaeth o strwythurau troswaal megis pedair Academi'r Brifysgol. Er bod y rhain wedi esblygu'n organig, mae'r Brifysgol wedi canfod agweddau llwyddiannus o'u gweithredoedd ac wedi eu hymestyn i ymdrin â rhannau eraill o ddarpariaeth y sefydliad. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod gan y Brifysgol nid yn unig agwedd strategol tuag at welliant, ond bod gan hyn fomentwm ac y lledaenwyd ei ethos yn effeithiol ymysg y staff a'r myfyrwyr.

4.2 Mae gan y mwyafrif o bwyllgorau uwch y Senedd welliant yn rhan o'u cylch gwaith. Y corff canolog sy'n ymwneud â gwelliant mewn dysgu ac addysgu yw'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu sy'n dod â chadeiryddion Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau ynghyd i yrru mentrau gwelliant. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth ddogfennol o'i arfer o dderbyn diweddariadau ar strategaethau ac adroddiadau gan weithgorau. Mae'r Academiâu'n adrodd i'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, gydag Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA), Academi Cyflogadwyedd Abertawe ac Academi Cynhwysedd a Chefnogi Dysgwyr Abertawe (SAILS), oll yn eitemau sefydlog ar yr agenda. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'n cynnal mentrau ac yn gyrru polisiâu, megis tiwtora personol, safoni cynnwys y rhith-amgylchedd dysgu, ac asesiad ac adborth yr holl ffordd i'w gweithrediad. Mae tystiolaeth hefyd i ddangos bod y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'n hwyluso trafodaeth, er enghraifft, am ddangosyddion perfformiad y Brifysgol gyfan, ystadegau cadwraeth, cynlluniau gweithredu'r AMC a chrynoadau o adroddiadau arholwyr allanol, ac yn diweddarau polisiâu neu'n cychwyn menter gwella i ymateb iddynt. Mae tystiolaeth hefyd i ddangos ei fod yn canfod gweithredoedd ac arferion da i'r Academiâu eu hymchwilio neu eu lledaenu.

4.3 Mae cofnodion Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau'n cadarnhau bod hyrwyddwyr yr Academiâu yn y colegau'n gallu lledaenu mentrau ar i lawr a chasglu adborth. Mae cofnodion hefyd yn cadarnhau bod Byrddau Astudiaethau'n gweithredu gwelliannau a gychwynwyd yn yr Academiâu neu'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu ac yn ystyried canlyniadau arsylliad cymheiriaid i ganfod arferion da i'w bwydo ar i fyny.

4.4 Mae mecanweithiau sicrhau ansawdd, yn cynnwys Adolygu Rhaglenni'n Flynyddol, Adolygu Rhaglenni'n Gyfnodol a Chymeradwyo Rhaglenni, oll yn cael eu defnyddio i ganfod arferion da. Mae'r Gofrestrfa Academaidd yn casglu adroddiadau Adolygiad Rhaglenni Blynyddol a Chyfnodol ac yn eu pasio i'r Academiâu i hysbysu prosiectau yn y dyfodol a chynllunio camau gweithredu. Mae'r dogfennau'n dangos bod gan y Byrddau Academaidd yn aml iawn eitem ar yr agenda sy'n ymwneud yn benodol â rhannu arferion da, er enghraifft o'r adroddiadau cyfanredol gan arholwyr allanol. Clywodd y tîm adolygu bod arsylwi gan gymheiriaid, a gefnogir gan ADAA, yn cael ei groesawu'n ddiffuant gan gydweithwyr oedd hefyd yn teimlo bod symud i'r strwythur colegau wedi cynyddu cyfleoedd i rannu arferion da.

4.5 Defnyddir adborth gan fyfyrwyr yn gyson i yrru gwelliant. Wedi'i alinio â'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu mae Adroddiad a Chynllun Gweithredu Profiad Myfyrwyr Blynyddol sy'n gallu gwneud defnydd o ystod o adborth, yn cynnwys yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig a'r AMC. Diolch i ddadansoddiad hynod drwyadl mewn ymateb i'r AMC, yn arbennig, cafwyd cynllunio camau gweithredu cadarn ac adnodd wedi'i dargedu y gallai'r tîm adolygu ei olrhain drwy brosesau sefydliadol a'i gysylltu ag ymyriadau. Cafodd y tîm yr argraff gan staff o ymatebolrwydd lefel uchel i ddata am adborth yn gyffredinol, gydag esiamplau niferus o newid arferion mewn ymgysylltiadau â myfyrwyr, ar lefelau canolog a lleol. Er enghraifft, o ganlyniad i Weithgor Asesiadau a sefydlwyd mewn ymateb i ganlyniadau gwael yr AMC, cafwyd rheolaeth dynnach ar amseroedd cyflawni, asesiadau mwy amrywiol, safonau gofynnol o ran adborth a chyflwyno marcio ar-lein gorfodol o hydref 2014 ymlaen. Mae integreiddio data am adborth i mewn i strwythurau gwelliant yn cyfrannu at yr arferion da a nodir ym mharagraff 2.3.5.

4.6 Un esiampl arbennig o bwerau o broses gwella yw'r Ymgysylltiad Profiad Myfyrwyr. Mae'r ymyriad hwn yn disodli'r cynllun Achos i Bryderu, a gall ganolbwyntio ar feysydd academaidd sy'n sgorio'n arbennig o dda yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, er mwyn rhannu arferion da, yn ogystal â'r rheiny sy'n perfformio'n wael ac sydd angen cynllun gweithredu. Cadarnhaodd cynrychiolwyr y myfyrwyr eu bod yn cymryd rhan mewn adolygiadau o'r fath ac aethent ymlaen i sôn am welliannau a gafwyd o ganlyniad iddynt. Clywodd y tîm adolygu nifer o weithiau bod staff a myfyrwyr yn ystyried gwelliant yn weithgaredd partneriaeth. Cafwyd enghreifftiau ganddynt o waith i wella cyfathrebiad ac i gysylltu gwasanaethau megis Gyfaeoddd gyda gwaith cymdeithasau myfyrwyr. Mae hefyd dystiolaeth i ddangos bod y Brifysgol wedi ceisio gwella ei strwythurau cynrychioli ac adborth, er enghraifft trwy benodi Swyddog Adborth

Myfyrwyr y Brifysgol. Mae cynnwys myfyrwyr israddedig yn bartneriaid mewn datblygu mentrau gwelliant yn **arfer da**.

4.7 Mae'r myfyrwyr hefyd yn gyfranogwyr brwd yn y pedair Academi draws-sefydliadol y mae pob un yn gyrru elfen o'r Cynllun Strategol a'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu, gyda'r blaenoriaethau wedi'u hysbysu'n rhannol gan ganlyniadau'r adroddiadau sicrhau ansawdd. Mae'r Academiâu'n gweithredu ar fodel 'prif ganolfan a lloerennau' i ganolbwyntio arian ar brosiectau yn hytrach na gweinyddiaeth, gan yrru eu mentrau ar draws y sefydliad a thrwy 'hyrwyddwyr' sy'n eistedd ar Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau er mwyn dosbarthu gwybodaeth, cynllunio darpariaeth prosiectau'n lleol a bwydo arferion da yn ôl i'r Academiâu. Mae'r hyrwyddwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu'n ymroddedig i'w rolau ac yn teimlo eu bod yn ddigon hyblyg i esblygu'n naturiol ac i ddarparu llwybr gyrfa posibl ar sail gwelliant. Mae'r staff addysgu'n llawn canmoliaeth am yr Hyrwyddwyr ac yn disgrifio ethos o welliant yn datblygu allan o strwythurau'r Academiâu.

4.8 Mae gan yr Academiâu strategaethau cydgysylltiol, a gallent gydweithio ar brosiectau a chynnal digwyddiadau lle 'rhennir bathodynau'. Clywodd y tîm adolygu am gydweithrediad rhwng Academi Cyflogadwyedd Abertawe ac ADAA a oedd wedi effeithio ar y system diwtora personol ac ar y system asesu. Maent hefyd yn gweithio gyda phwyllgorau traws-sefydliadol eraill a chlywodd y tîm adolygu am y Grŵp Arloesi mewn Dysgu, sef casgliad o gadeiryddion Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau a Hyrwyddwyr ADAA, yn cynnwys y coleg mewnosodedig, Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe, ac un o'i ganlyniadau, y rhaglen 'Make One Change' sy'n annog academyddion i fabwysiadu un arfer arloesol wedi'i gyfateb â chanlyniadau'r AMC.

4.9 Yn rhan o'i ffocws arbennig, mae ADAA yn cynnal y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol a'r gwobrau a enwebir gan fyfyrwyr, y Wobr Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu a Gwobr Cymorth Rhagorol i Fyfyrrwyr. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd ariannu bychan ar gyfer datblygiad addysgu, yn cefnogi ceisiadau am wobrau allanol, yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gael interniaethau ymchwilio, ac yn rhedeg seminarau gwella ar arferion pedagogaid, gyda'r gwe-dudalennau cysylltiedig sy'n adnodd rhagorol. Rhoddodd staff esiamplau penodol o ADAA yn helpu i wella eu harferion asesu. Mae ADAA yn gweithio'n agos gyda'r Academi Addysg Uwch (AAU), gan gynnal cyd-gynadleddau, cyfeirio staff at wybodaeth a chyfleoedd AAU, a derbyn cyllid ar gyfer prosiect ar asesiad cynhwysol, gwaith ymchwil a droswyd yn ddatblygiad proffesiynol parhaus ac adnoddau ar-lein. Mae gweithgareddau ADAA yn cyfrannu at y nodwedd o arfer da a ddisgrifir ym mharagraff 2.2.3.

4.10 Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe yn cydlynu ac yn ysgogi mentrau gwella cyflogadwyedd, gan weithio gyda'r Gwasanaethau Gyrfaoedd, Colegau a Phroffesiynol. Mae gan ei Bwrdd aelodaeth eang i randdeiliaid a chyflogwyr ac mae'n ymgorffori strategaethau rhanbarthol. Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe'n cydlynu Gwobr Gyflogadwyedd Abertawe, a gofnodir yn yr Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch ac mae'n cynnwys modiwlau cyflogadwyedd a 'phrofiad bywyd'. Mae hefyd yn gysylltiedig ag amrediad o wobrau eraill mewn gwirfoddoli, cynaliadwyedd a rhyngwladoli. Mae'r Academi'n gyfrifol am Rwydwaith Interniaeth â Thâl Abertawe, gyda'i deunyddiau cefnogi rhagorol, a'r Wythnos o Waith. Mae'r cynrychiolwyr myfyrwyr yn bositif iawn am y mentrau hyn ac maent wedi cyfranogi yn eu datblygiad. Rhoddodd hyrwyddwyr cyflogadwyedd esiamplau o'r cymorth y maent wedi'i roi i adolygu'r canlyniadau dysgu a fwriedir yn y cwricwlwm a chychwyn academiâu 'bach' yn y colegau, gan bennu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer bob rhaglen. Yn fwy cyffredinol (fel y disgrifir ym mharagraff 2.7.1), mae'r Brifysgol wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn ei Gwasanaeth Gyrfaoedd. Mae gwaith Academi Cyflogadwyedd Abertawe'n cyfrannu at y nodwedd o arfer da a ddisgrifir ym mharagraff 2.2.3.

4.11 Cyfeirir SAILS at ehangu mynediad ac at wella cymorth academaidd a bugeiliol i fyfyrwyr, gan weithio gydag AAU a phartneriaid megis y Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol a'r Bartneriaeth Ymggyraedd yn Ehangach. Mae ei strategaeth cadw myfyrwyr yn croesawu

ymgysylltiad cyn Prifysgol, ymsefydliad estynedig, gwell adborth, cymorth i ddysgwyr a chymorth bugeiliol a chanfod yn fuan y rheiny sydd mewn perygl o beidio gwneud cynnydd. Mae gan SAILS hefyd rôl mewn monitro data am fynediad a chadwraeth, a gafodd ei gwella'n sylweddol yn ddiweddar. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod y strategaeth cadw myfyrwyr yn cael ei lledaenu i lefel y colegau. Mae gweithgareddau allanol SAILS yn cynnwys digwyddiadau blasu Cymraeg mewn ysgolion ac yn cynnig cyfleoedd addysgu i fyfyrwyr y Brifysgol drwy sesiynau blasu yn y gymuned.

4.12 Mae Academi Hywel Teifi yn gyfrifol am hybu cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg ar draws y Brifysgol. Trafodir y cyd-destun ar gyfer rhai o'i gwaith ar gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ym mharagraff 3.12. Y tu hwnt i'r gwaith penodol yma, mae Academi Hywel Teifi'n cyfrannu at welliant mewn nifer o ffyrdd. Clywodd y tîm adolygu gan staff am y cynnydd sylweddol a wnaed yn y nifer o fodiwlau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 369 o fyfyrwyr erbyn hyn yn astudio yn yr ieithoedd a chyfleoedd ar draws y mwyafrif o'r colegau. Mae Academi Hywel Teifi'n annog staff i addysgu yn y Gymraeg, gan gynnig 14 o swyddi darlithio drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chadarnhaodd y staff bod y strwythurau coleg ehangach wedi galluogi lledaenu'r ddarpariaeth.

4.13 Mae gwaith Academi Cyflogadwyedd Abertawe, ADAA, SAILS ac Academi Hywel Teifi i ddatblygu, gwerthuso a lledaenu prosiectau da sy'n gwella profiad dysgu ehangach y myfyrwyr yn **arfer da**.

4.14 Mae'r Brifysgol yn gwella profiad a chyflogadwyedd myfyrwyr drwy eu hannog yn frwd i astudio neu weithio dramor yn ystod eu rhaglenni gradd. Y strategaeth fu lledaenu'r arferion y tu hwnt i raddau iaith ac yn arbennig i leihau diweithdra ymysg graddedigion ac mae'n cyd-fynd â Strategaeth Ryngwladoli Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau, o sail isel, yn hynod anogol. I gynyddu'r ddarpariaeth, mae'r Brifysgol wedi meithrin nifer fechan o bartneriaethau y mae'n gobeithio eu datblygu, efallai gyda Graddau ar y Cyd. Rhaid i hyn gael ei hyrwyddo gan nifer o fesurau technegol, gan gynnwys y Prosiect Diwygio ac Arloesi'r Cwricwlwm a adolygodd strwythur rhaglenni ac a barodd y symudiad at rannu blwyddyn academiaidd yn semestrau i ganiatáu ar gyfer astudio dramor, lleoliadau rhyngwladol a blynyddoedd rhyngosodol heb anfantais. Mesur pellach yw estyniad y fenter 'leithoedd i Bawb' i raglenni y tu hwnt i'r celfyddydau a'r dyniaethau. Mae'r staff yn ymwybodol o'r mentrau hyn, ac yn ymgysylltu â nhw, a soniasant amdanynt fel achosion o welliant pwrpasol yn y nod strategol i newid gogwydd profiad y Brifysgol o amgylch nodweddion graddedigion. Mae cyfraniad mentrau symudedd a rhyngwladoli at ddatblygiad personol a gyrfaol y myfyrwyr yn **arfer da**.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau allweddol yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Mae gan y mwyafrif o dermau ddiffiniadau 'gweithredol' ffurfiol hefyd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y *Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol: Cymru*, sydd ar gael ar ein gwefan ar:

www.qaa.ac.uk/cy/publications/pages/information-and-guidance-details.aspx?pubid=123.

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/pages/glossarycy.aspx.

canlyniad dysgu Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Cod Ansawdd Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sy'n cael ei ddatblygu o 2011 i gymryd lle'r **Seilwaith Academaidd** a bydd yn cynnwys ei elfennau allweddol i gyd, ynghyd â phynciau ychwanegol a themâu trosfwaol.

Cod Ymarfer Y Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch, a gyhoeddir gan ASA: cyfres o ddogfennau rhyngberthynol sy'n rhoi arweiniad i sefydliadau addysg uwch.

credyd(au) Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu rhaglenni astudio addysg uwch, wedi'i fynegi fel 'nifer o gredydau' ar lefel benodol.

cyfleoedd dysgu Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys **rhaglenni astudio** a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academaidd a phersonol, adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios) a datblygiad staff.

datganiad meincnod pwnc Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

diffiniad gweithredol Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adroddiadau.

ehangu cyfranogaeth Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

fframwaith cymwysterau addysg uwch Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)* a'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau sefydliadau addysg uwch yn yr Alban*.

fframwaith Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd y **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

gwelliant Cymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y **cyfleoedd dysgu**. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau archwilio ac adolygu ASA.

gwybodaeth gyhoeddus Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

manylebau rhaglen Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r **rhaglenni astudio**, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

nodwedd o arfer da Agwedd gadarnhaol o'r ffordd y mae sefydliad addysg uwch yn rheoli ansawdd a safonau, y gellid eu gweld fel esiamplau rhagorol i bobl eraill.

rhaglen (astudio) Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

safon academiaidd trothwy Y safon ofynnol y dylai myfyriwr ei chyrraedd er mwyn ennill cymhwyster neu ddyfarniad penodol, fel y mae wedi'i disgrifio yn y **datganiadau meincnod pwnc** a'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol. Mae safonau trothwy'n wahanol i safonau perfformiad y mae angen i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn ennill unrhyw ddsbarth penodol o ddyfarniad, er enghraifft gradd baglor o'r radd flaenaf. Gweler hefyd **safon academiaidd**.

safonau academiaidd Y safonau a osodir gan sefydliadau ac a gynhelir ganddynt ar gyfer eu cyrsiau a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academiaidd trothwy**.

Seilwaith Academiaidd Arweiniad a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan y gymuned addysg uwch ac a gyhoeddir gan ASA, a ddefnyddir gan sefydliadau i sicrhau bod eu cyrsiau'n cyflawni disgwyliadau cenedlaethol mewn perthynas â safonau academiaidd a bod amgylchedd addas ar gael i'r myfyrwyr allu mynd iddo i ddysgu (ansawdd academiaidd). Mae'n cynnwys pedwar grŵp o bwyntiau cyfeirio: **fframweithiau cymwysterau addysg uwch**, **datganiadau meincnod pwnc**, **manylebau rhaglenni** a'r **Cod Ymarfer**. Mae gwaith ar droed (2011-12) i ddiwygio'r Seilwaith Academiaidd fel Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

QAA943 - R3417 - Med 14

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2014
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB

Ffôn 029 2048 5963 (Cymraeg) 01452 557 000 (English)
Ebost enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786